



Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

ELWA/CYNGOR CENEDLAETHOL CYMRU DROS ADDYSG A HYFFORDDIANT:

# RHEOLAETH ARIANNOL O BROSIECTAU PARTNERIAETH AC ARLOESI A PHROSIECTAU DATBLYGU

Adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru


Cyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ac ar gael oddi wrth:

Y Llyfrfa Oriel
18-19 Y Stryd Fawr, Caerdydd, CF10 1PT

Ffon 029 2039 5548
Ffacs 029 2038 4347

Argraffwyd ar bapur Greencoat.
Defnyddir 80% ffeibr ail-gylchedig a 20% virgin TCF pulp o goedwigoedd cynaliadwy i gynhyrchu papur Greencoat.
DG Cyf: 3299ve

ISBN 1-90-421916-0




**ELWA/CYNGOR CENEDLAETHOL CYMRU DROS ADDYSG A HYFFORDDIANT:**

# Rheolaeth Ariannol o Brosiectau Partneriaeth ac Arloesi a Phrosiectau Datblygu

Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a gyflwynir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

16 Medi 2003

Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth i Gymru 1998.

John Bourn
Archwilydd Cyffredinol Cymru

3-4 Plas-y-Parc
Caerdydd
CF10 3DP

16 Medi 2003

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn hollol annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n ardystio cyfrifon y Cynulliad a'i gyrff noddedig cyhoeddus cysylltiedig; ac mae ganddo awdurdod statudol i adrodd i'r Cynulliad ar y cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithioldeb sydd gan y Cynulliad a'i gyrff cyhoeddus noddedig wrth ddefnyddio eu adnoddau i gyflawni eu gweithrediadau.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru.

Roedd tîm astudio Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn cynnwys Mike Usher, Phil Pugh a Darren Williams. Os am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru cysylltwch â:

Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru
3-4 Plas-y-Parc
Caerdydd
CF10 3DP

Ffôn: 029 2067 8500

e-bost: ian.summers@nao.gsi.gov.uk
gillian.body@nao.gsi.gov.uk
Cyfeiriad safle'r Wê: http://www.acc.cymru.gov.uk/dangoseg.htm

# CYNNWYS

| | |
|---|---|
| **Crynodeb gweithredol** | **1** |
| **Rhan 1: Cyflwyniad** | **5** |
| Cefndir | 5 |
| Cwmpas yr adroddiad hwn | 5 |
| Archwiliad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru | 5 |
| Cydnabyddiaethau | 6 |
| **Rhan 2: Fframwaith Rheoliadol y Cyngor Cenedlaethol a'i Raglen arloesi a Datblygu ar gyfer 2001-02** | **7** |
| Cyflwyniad | 7 |
| Cefndir Statudol | 7 |
| Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 | 7 |
| Rôl y Cyngor | 7 |
| Rôl y Prif Weithredwr | 7 |
| Y Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol | 7 |
| Atodlen 8 - Canllawiau ar gyfer Prosiectau Arloesi a Datblygu | 8 |
| Cynllun Gweithredol y Cyngor Cenedlaethol: 2001-02 | 9 |
| Arian Ychwanegol ar gyfer y Rhaglen i Ddatblygu Arloesedd yn 2001-02 | 9 |
| **Rhan 3: Prosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop** | **12** |
| Cyflwyniad | 12 |
| Prosiect Café MPS y Ganolfan Bop: ei natur a'i ddiben | 12 |
| Asesiad o'r cynnig prosiect gan y Cyngor Cenedlaethol | 12 |
| Y broses o gymeradwyo'r Prosiect | 14 |
| Annigonolrwydd y Contract | 17 |
| Monitro a Rheoli'r Prosiect | 21 |
| Materion sy'n ymwneud â Gwerth am Arian | 22 |
| Casgliadau Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru | 25 |
| **Rhan 4: Adolygiad o Brosiectau'r Rhaglen eraill i Ddatblygu Arloesedd** | **27** |
| Cyflwyniad | 27 |
| Prosiectau Rhaglenni i Ddatblygu Arloesedd | 27 |
| Materion a nodwyd o adolygiadau archwilio 17 o brosiectau eraill | 27 |
| Casgliadau Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru | 30 |

# CYNNWYS (parhad)

| | |
|---|---|
| **Rhan 5: Taliadau i Ddarparwyr Hyfforddiant ym Mawrth ac Ebrill 2002** | **31** |
| Cyflwyniad | 31 |
| Taliadau i Ddarparwyr Hyfforddiant | 31 |
| Canlyniadau archwiliad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru | 31 |
| Casgliadau Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru | 33 |
| **Atodiadau** | |
| 1. Cronoleg prosiect Café MP3 y Ganolfan Bop | 34 |
| 2. Prosiectau a gymeradwywyd o dan y Cynllun Arloesi a Datblygu rhwng Rhagfyr 2001 a Mawrth 2002 | 36 |

# RHESTR O FFIGURAU A THABLAU

| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 1: | Amcanion y Rhaglen Arloesi a Datblygu | 9 |
| Ffigur 2: | Crynodeb o'r Costau Amcangyfrifedig ar gyfer Caffi MP3 y Ganolfan Bop | 14 |
| Ffigur 3: | Dadansoddiad o arian y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer y prosiect | 17 |
| Ffigur 4: | Diffygion allweddol yng nghontractau'r Cyngor Cenedlaethol gyda Learn to Live Cyf | 18 |
| Ffigur 5: | Crynodeb o reolau'r Comisiwn Ewropeaidd yn ymwneud â Chymorth y Wladwriaeth | 18 |
| Ffigur 6: | Gwariant nad yw wedi'i nodi yng nghontract y Cyngor Cenedlaethol | 20 |
| Ffigur 7: | Gwendidau a nodwyd ymhlith 17 o'r prosiectau eraill o fewn Rhaglen i Ddatblygu Arloesedd y Cyngor Cenedlaethol | 29 |
| Ffigur 8: | Dadansoddiad o 'Daliadau ar Gyfrif' i Ddarparwyr Hyfforddiant ym Mawrth 2002 | 31 |

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canlyniadau ymchwiliad archwilio a gynhaliwyd ar gais y Pwyllgor Archwilio a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Cynhaliwyd yr archwiliad gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac archwiliodd gamau gweithredu Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (y Cyngor Cenedlaethol) wrth weinyddu a monitro prosiectau'r Rhaglen Datblygu Arloesedd:

- Mae **Rhan 2** o'r adroddiad yn disgrifio'r fframwaith rheoliadol a rheoli y mae'n ofynnol i'r Cyngor Cenedlaethol weithredu ei Rhaglen i Ddatblygu Arloesedd o'i mewn, a'r amgylchiadau cyfundrefnol ehangach a chyd-destun lle y cafwyd gwariant ar brosiectau o fewn y rhaglen hon yn ystod y flwyddyn ariannol 2001-02;
- Mae **Rhan 3** yn nodi canlyniadau adolygiad archwilio manwl o gontract y Cyngor Cenedlaethol gyda Learn to Live Cyf ar gyfer cyflwyno'r prosiect 'Caffi MP3 y Ganolfan Bop';
- Mae **Rhan 4** yn darparu manylion adolygiad archwilio ehangach o 17 o brosiectau Datblygu Arloesedd eraill a gymeradwywyd gan y Cyngor Cenedlaethol rhwng Rhagfyr 2001 a Mawrth 2002; ac
- Mae **Rhan 5** yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau adolygiad archwilio rhai mathau o daliadau a wnaed gan y Cyngor Cenedlaethol ym Mawrth ac Ebrill 2002 i ddarparwyr hyfforddiant prif ffrwd.

Mae casgliadau Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar bob un o'r prif faterion a gwmpesir yn yr adroddiad fel a ganlyn:

## Ar y Prosiect Café MP3 y Ganolfan Bop (Rhan 3)



### Ar Gais y Prosiect a Gweithdrefnau Cymeradwyo

Roedd y rheolaethau a sefydlwyd yn ystod y broses o gymhwyso a chymeradwyo yn annigonol oherwydd:

- diffyg dadansoddiad manwl gan y Cyngor Cenedlaethol o'r allbynnau a'r canlyniadau arfaethedig a gynhwysir yng nghais y prosiect, a sut byddai'r rhain yn cyd-fynd â'i amcanion strategol.
- proses wael ar gyfer nodi risgiau a diffyg cynigion manwl ar gyfer rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â phrosiect sydd mor newydd ac arloesol, gan dorri'r canllawiau a gynhwysir yng Nghynllun Gweithredol y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer 2001-02.
- y diffyg dogfennaeth i ddangos bod y Cyngor Cenedlaethol wedi ystyried yn ddigonol pa un a fyddai modd cyflwyno nodau'r prosiect mewn unrhyw ffordd arall neu bod cydymffurfiad â chanllawiau Cymorth y Wladwriaeth a Chaffael Ewrop wedi'i asesu.
- y methiant i gynnal asesiad ymarferoldeb ariannol o Grŵp Cyfryngau Avanti cyn i'r contract gael ei lofnodi gan staff y Cyngor Cenedlaethol ac, o ganlyniad i hynny, analluo'r Cyngor Cenedlaethol i asesu gallu'r cwmni i reoli prosiect mor fawr.



Methodd staff y Cyngor Cenedlaethol â mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r materion a godwyd gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ar y pryd yn eu hasesiad cychwynnol o'r prosiect, ac i gyflwyno adroddiadau nôl i'r Prif Weithredwr bryd hynny ar unrhyw un o'r pwyntiau yr oedd hi a'r Cadeirydd wedi eu codi cyn i'r contract gael ei lofnodi gan staff y Cyngor Cenedlaethol.

Yn ogystal, mae'r ffaith i swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a staff y Cyngor Cenedlaethol fethu â chyflwyno nodyn o'r materion a drafodwyd yn eu cyfarfod ar 10 Ionawr 2002 yn golygu nad oes modd gwybod yn sicr a gafodd yr holl faterion sylweddol oedd yn weddill eu hystyried a'u datrys cyn ceisio cymeradwyaeth Weinidogol ar gyfer y prosiect.



## Ar ddigonolrwydd dogfennaeth y Contract

Nid oedd y ddogfen gontract yn diogelu sefyllfa'r Cyngor Cenedlaethol yn ddigonol ac roedd yn anghyson â'r cais Cronfa Datblygu Arloesedd gwreiddiol a ddarparwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ar y pryd.

Nid oedd natur y gwariant i'w ariannu gan y Cyngor Cenedlaethol wedi'i ddiffinio'n ddigonol yn y contract. Nid yw Atodiad B i'r contract yn diffinio beth yw 'modiwl' ac nid oes esboniad o sut y byddai datblygu pum modiwl yn costio £2.35m.

Nid oes diffiniadau o 'wariant cymwys' yn y contract ac nid yw'n atal taliadau rhyng-gwmnïol o fewn Grŵp Cyfryngau Avanti gan gynnwys maint yr elw ar gyfer y gwaith a gwblhawyd.



Nid yw'r newidiadau yn natur a chwmpas y contract wedi'u cofnodi'n ffurfiol drwy'r defnydd o amrywiadau contract. Mae'r diffyg cofnodion cyfoes o gyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng y Cyngor Cenedlaethol a'r cwmni yn golygu ei bod yn anodd cadarnhau cymhwyster y gwariant mewn perthynas â'r prosiect. Nodwn nad oedd y Cyngor Cenedlaethol wedi darparu arweiniad i Learn to Live Cyf ar y gofynion monitro ariannol ac atebolrwydd a nodwyd yn y contract.

## Ar y taliad o £4 miliwn a wnaed gan y Cyngor Cenedlaethol ym mis Mawrth 2002

Roedd taliad y Cyngor Cenedlaethol o £4 miliwn i Learn to Live Cyf ar 27 Mawrth 2002 wedi'i ysgogi gan awydd er mwyn sicrhau y gellid lleihau ei amcangyfrif o danwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2001-02 sicrhau bod y cronfeydd ar gael iddo yn cael eu defnyddio er budd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Roedd yn ymwybodol bod amserlen y prosiect wedi newid yn sylweddol a bod y cwmni ei hun wedi gofyn am ohirio rhai elfennau o wariant cyfalaf.



Nid oes tystiolaeth ddogfennol bod y Cyngor Cenedlaethol wedi ystyried yr achos gwerth am arian ar gyfer rhoi blaendal, ac mae'n amlwg i bron hanner y £4 miliwn gael ei dalu cyn bod ei angen. Roedd hyn er gwaetha'r ffaith i staff y Cyngor Cenedlaethol dderbyn hysbysiad ysgrifenedig gan y cwmni, cyn rhyddhau'r £4 miliwn o arian, ei fod yn dymuno gohirio elfennau o'r gwariant cyfalaf a nodwyd yn Atodiad C y contract. Ni cheisiwyd ac ni chafwyd cymeradwyaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y blaendal.

## Ar ddigonolrwydd prosesau monitro prosiectau'r Cyngor Cenedlaethol



Roedd diffygion sylweddol ym mhrosesau'r Cyngor Cenedlaethol ar gyfer monitro a chyflwyno adroddiadau ar gynnydd y prosiect hwn. Ni chafodd yr adroddiad monitro prosiectau ffurfiol cyntaf a baratowyd gan Learn to Live Cyf ei gyflwyno i'r Cyngor Cenedlaethol tan fis Tachwedd 2002, rhyw saith mis ar ôl i'r £4 miliwn gael ei dalu i'r cwmni. Amlygodd yr adroddiad hwnnw lefel o wariant nad oedd yn adlewyrchu canfyddiad y Cyngor Cenedlaethol o gynnydd y prosiect ar yr adeg honno a'r pryderon hyn a ysgogodd adolygiad manwl o'r prosiect gan y tîm Archwilio Mewnol.

Gwnaed newidiadau sylweddol i'r wybodaeth wreiddiol a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ond ni chyfathrebwyd y newidiadau hyn ac ni cheisiwyd cymeradwyaethau newydd.

## Sicrhau Gwerth am Arian

O ystyried bod y prosiect wedi'i amserlennu i barhau tan 2005, nid yw'n bosibl dod i gasgliad pendant ar hyn o bryd ar y graddau y mae £4 miliwn o arian y Cyngor Cenedlaethol wedi sicrhau gwerth da am arian i'r pwrs cyhoeddus.

Mae'r tîm Adolygu Mewnol wedi canfod bod £770,000 o arian y Cyngor Cenedlaethol a wariwyd ar y prosiect Learn to Live Cyf yn anghyson â'r contract gwreiddiol (er y cytuna'r ddwy ochr erbyn hyn bod llawer o hyn o fewn ysbryd y contract hwnnw), a bod prinder tystiolaeth i gadarnhau bod yr holl arian a wariwyd gan y cwmni wedi'i ddefnyddio at y dibenion y'i bwriadwyd ar eu cyfer.

Mae'r cyfuniad o wneud y taliad cyn bod ei angen a'r mesurau diogelu cytundebol aneffeithiol wedi rhoi rheolaeth gyfyngedig iawn ar gais i'r Cyngor Cenedlaethol o ran sut dylai'r cwmni wario'r arian a ddarparwyd ac mae wedi peryglu'r broses o gyflawni gwerth da am arian. Fodd bynnag, ers hynny mae Learn to Live Cyf wedi ad-dalu bron £1.95 miliwn o'r £4 miliwn gwreiddiol, er nad oedd unrhyw rwymedigaeth cytundebol arno i wneud hynny.



## Ar yr adolygiad o brosiectau eraill y Rhaglen i Ddatblygu Arloesedd (Rhan 4)

Mae'n fater o gryn bryder bod sawl un o'r gwendidau difrifol oedd yn bodoli yn ymdriniaeth y Cyngor Cenedlaethol o brosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop hefyd wedi'u nodi mewn rhai o'r 18 o brosiectau eraill o fewn rhaglen y Gronfa i Ddatblygu Arloesedd a oedd yn destun adolygiad archwilio. Yn gyffredinol, roedd fframwaith rheoli'r Cyngor Cenedlaethol o ran y prosiectau hyn yn annigonol:

- Ni chynhaliwyd asesiadau risgiau digonol fel rhan o brosesau arfarnu a chymeradwyo prosiectau y Cyngor Cenedlaethol, a phrin iawn yw'r dystiolaeth bod rheoliadau Cymorth y Wladwriaeth wedi'u hystyried yn briodol gan y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer pob prosiect.

- Roedd y contractau a gyhoeddwyd o ran sawl prosiect yn amrywio'n sylweddol, ac roedd rhai'n seiliedig yn gyffredinol ar y contract a fabwysiadwyd ar gyfer prosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop. Fel y nodwyd yn Rhan 3 o'r adroddiad hwn, roedd model y contract hwnnw yn cynnwys gwendidau sylweddol ac nid oedd yn diogelu buddiannau'r Cyngor Cenedlaethol yn ddigonol.

- Ni chafodd y prosiect ei fonitro'n ddigon trylwyr mewn rhai enghreifftrau, ac nid oedd gan staff y Cyngor Cenedlaethol oedd yn ymwneud â'r broses o arfarnu, monitro a rheoli prosiectau y ddealltwriaeth, y sgiliau na'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn effeithiol, neu roeddent wedi methu â'u rhoi ar waith. Er bod ganddynt nifer o ffynonellau o arweiniad o ran yr hyn a ddisgwyliwyd ganddynt, ni chanfuwyd unrhyw wendidau yn eu dealltwriaeth, eu sgiliau a'u gwybodaeth fel bod modd rhoi cymorth a hyfforddiant digonol iddynt.



Tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol 2001-02, gwnaeth y Cyngor Cenedlaethol daliadau cyn bod eu hangen yn rhannol oherwydd ei awydd i osgoi tanwariant ar gyfer y flwyddyn yn yr arian a gafodd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r arfer hwn yn annerbyniol mewn Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.



Ar un prosiect, roedd oddeutu £1.7 miliwn o arian y Cyngor Cenedlaethol a ddarparwyd yn 2001-02 yn parhau heb ei wario ymhell i'r flwyddyn ariannol 2003-04. Dylai'r Cyngor Cenedlaethol fod wedi adennill yr arian hwn gan y sefydliadau addysg bellach dan sylw a'i ailryddhau pan oedd ei angen mewn gwirionedd, ond ni wnaed hyn tan Haf 2003.

Ynghyd â balans yr arian o brosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop sydd yn dal heb ei wario, mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli adnoddau o floc gwariant cyfyngedig Cymru nad ydynt wedi'u defnyddio'n brydlon at y dibenion bwriededig ac na threfnwyd eu bod ar gael i'w hailddefnyddio mewn mannau eraill. Yn fy marn i ni all arferion o'r fath gynrychioli gwerth am arian cadarn i'r trethdalwr a phobl Cymru.

## Ar y taliadau i Ddarparwyr Hyfforddiant ym Mawrth ac Ebrill 2002 (Rhan 5)



Roedd hysbysiad y Cyngor Cenedlaethol i ddarparwyr hyfforddiant wedi nodi y byddent yn derbyn taliadau ar gyfrif ym Mawrth 2002 er mwyn mynd i'r afael â phroblemau llif arian parod y darparwyr, ac wedi hynny cyfiawnhaodd y taliadau yn gyhoeddus yn y termau hyn. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth ddogfennol i'r materion hyn gael eu codi'n uniongyrchol gan ddarparwyr hyfforddiant gyda'r Cyngor Cenedlaethol. Effaith y penderfyniad i wneud y taliadau hyn oedd lleihau'r arian parod a gedwir yng nghyfrif banc y Cyngor Cenedlaethol ar ddiwedd y flwyddyn, ac mae memorandwm 'Rheoli Arian Parod' y Cyngor Cenedlaethol, dyddiedig 14 Mawrth 2002, yn dystiolaeth o hyn. Nododd y memorandwm fod yr amcangyfrif o'r balansau arian parod diwedd y flwyddyn ar gyfer 2001-02 yn debygol o fod yn fwy na'r lefelau "cario drosodd" a ganiateir.

Nid yw contractau'r Cyngor Cenedlaethol gyda darparwyr hyfforddiant yn dweud unrhyw beth am y mater o daliadau ar gyfrif ac ni ddigwyddodd taliadau o'r fath ar unrhyw adeg arall yn ystod y flwyddyn ariannol 2001-02. Roedd y cyfrifiad o lefel y taliadau i ddarparwyr wedi'i gynllunio er mwyn sicrhau na fyddai'n mynd y tu hwnt i'r anfonebau terfynol ar gyfer y gwaith a wnaed ym mis Mawrth 2002. Fodd bynnag, os oedd tystiolaeth bod darparwr, ar ôl hynny, wedi derbyn gordaliad am ei wasanaethau ym mis Mawrth ac yna wedi rhoi'r gorau i fasnachu, mae'n bosibl na fyddai'r Cyngor Cenedlaethol wedi gallu adfer unrhyw arian a ordalwyd.



Hysbyswyd pob un o'r darparwyr hyfforddiant am y cynigion drwy lythyr ym Mawrth 2002 a dylent felly fod wedi bod yn ymwybodol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol y byddai'r taliadau ar gyfrif yn cynhyrchu gostyngiadau yn eu hawliau i daliadau ar gyfer Ebrill 2002.

Roedd y cynllun 'Rheoli Arian Parod' yn ymwyriad oddi wrth arferion talu arferol y Cyngor Cenedlaethol ac rydym o'r farn y dylid bod wedi ceisio cymeradwyaeth ar ei gyfer gan yr is-adran oedd yn ei noddi o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn sy'n deillio o'r archwiliad yn dangos methiant difrifol a sylfaenol y rheolaethau a ddylai fod wedi bod ar waith gan y Cyngor Cenedlaethol. Nid yw'n dderbyniol bod busnes cyhoeddus wedi'i gynnal yn y modd hwn ac nad oedd buddiannau pobl Cymru wedi'u diogelu yn well.**

# RHAN 1 Cyflwyniad

## Cefndir

1.1 Sefydlwyd 'ELWa - Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant' (y Cyngor Cenedlaethol) ar 10 Hydref 2000, o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, ac mae'n Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Mae'r Cyngor Cenedlaethol yn gyfrifol am ariannu'r holl addysg a hyfforddiant ôl-16 oed yng Nghymru, ar wahân i addysg uwch. Fe'i ariennir gan gymorth grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a oedd yn gyfanswm o dros £371 miliwn yn 2001-02.

1.2 Prif nod y Cyngor Cenedlaethol yw darparu ar gyfer proses cynllunio strategol ac ariannu addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru. Cenhadaeth y Cyngor Cenedlaethol yw hyrwyddo dysgu gydol oes a darparu cyfleoedd dysgu o'r radd flaenaf yng Nghymru. Roedd y broses o ariannu swyddogaethau a ddaeth yn gyfrifoldeb y Cyngor Cenedlaethol wedi'i weinyddu'n flaenorol gan Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru, pedwar Cyngor Hyfforddiant a Menter Cymru ac Awdurdodau Addysg Lleol, a hynny tan 31 Mawrth 2001.

## Cwmpas yr adroddiad hwn

1.3 Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhoi crynodeb o ganlyniadau ymchwiliad archwilio a gynhaliwyd ar gais Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd y cais hwn yn dilyn sylw sylweddol yn y cyfryngau yn deillio o ddau rifyn o raglen deledu BBC Cymru 'Week In, Week Out', a ddarlledwyd ar 11 Chwefror a 13 Mai 2003. Amlygodd y rhaglenni hyn faterion a phryderon penodol o ran taliadau a wnaed gan y Cyngor Cenedlaethol i ddarparwyr hyfforddiant ym Mawrth 2002 ac, yn arbennig, i gontract rhwng y Cyngor Cenedlaethol a Learn to Live Cyf mewn perthynas â phrosiect Rhaglen i Ddatblygu Arloesedd o'r enw 'Caffi MP3 y Ganolfan Bop'. Roedd y prosiect hefyd yn bwnc ymchwiliad archwilio mewnol y Cyngor Cenedlaethol a ddechreuodd ym mis Tachwedd 2000 ac fe'i gwblhawyd yn Ebrill 2003. Yn ogystal, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi derbyn amrywiaeth o ohebiaeth gan aelodau'r cyhoedd ynglyn â'r materion hyn yn dilyn y ddau ddarllediad gan BBC Cymru.

1.4 Mae'r adroddiad yn archwilio rôl y Cyngor Cenedlaethol o ran gweinyddu a monitro prosiectau'r Rhaglen i Ddatblygu Arloesedd:

- Mae **Rhan 2** o'r adroddiad yn disgrifio'r fframwaith rheoleiddiol a rheolaethol y mae'n ofynnol i'r Cyngor Cenedlaethol weithredu ei Raglen i Ddatblygu Arloesedd o'i fewn, a'r amgylchiadau a arweiniodd at wariant ar brosiectau o fewn y rhaglen hon yn ystod y flwyddyn ariannol 2001-02;
- Mae **Rhan 3** yn nodi canlyniadau adolygiad archwilio manwl o gontract y Cyngor Cenedlaethol gyda Learn to Live Cyf ar gyfer cyflwyno'r prosiect 'Caffi MP3 y Ganolfan Bop'. Ceir cronoleg fanwl o'r prosiect hwn yn **Atodiad 1**;
- Mae **Rhan 4** yn rhoi manylion adolygiad archwilio ehangach o 17 o brosiectau Rhaglen i Ddatblygu Arloesedd a gymeradwywyd gan y Cyngor Cenedlaethol rhwng Rhagfyr 2001 a Mawrth ac Ebrill 2002; ac
- Mae **Rhan 5** yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau adolygiad archwilio o rai taliadau a wnaed i ddarparwyr hyfforddiant prif ffrwd gan y Cyngor Cenedlaethol ym Mawrth 2002.

1.5 Dyma'r ail o dri adroddiad yr wyf yn bwriadu eu cyhoeddi ar faterion rheolaeth ariannol o fewn y Cyngor Cenedlaethol. Yn Ionawr 2003, cyflwynais adroddiad ar gontractau caffael afreolaidd a osodwyd gan y Cyngor Cenedlaethol a oedd wedi achosi i mi gymhwyso fy marn archwilio ar ei gyfrifon am y cyfnod yn dod i ben 31 Mawrth 2002. Yn ogystal, nododd yr adroddiad hwnnw amrywiaeth o faterion cyd-destunol yn ystod y cyfnod hwnnw yn ymwneud â'r caffaeliadau yn cynnwys pa mor gyflym y daeth y Cyngor Cenedlaethol i fodolaeth a'r angen, o ganlyniad i hynny, iddo weithredu 'busnes fel arfer', drwy ddefnyddio systemau gwahanol y chwe chorff a'i rhagflaenodd, yn ystod y cyfnod hwnnw. Bwriadaf gyhoeddi adroddiad sylweddol pellach ar faterion rheolaeth ariannol yn y Cyngor Cenedlaethol pan fyddaf yn cwblhau fy archwiliad o'i gyfrifon ar gyfer 2002-03 yn ddiweddarach eleni.

## Archwiliad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

1.6 Oherwydd natur y pryderon a godwyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol, mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru wedi archwilio rheoleidd-dra, cywirdeb a gwerth am arian trafodion amrywiol y Cyngor Cenedlaethol.

1.7 Wrth gynnal yr archwiliad hwn, mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru wedi gweithio'n agos gyda thîm Archwilio Mewnol y Cyngor Cenedlaethol, sydd wedi cwblhau ei archwiliadau cynhwysfawr ei hun o gontract Learn to Live Cyf a rhai o brosiectau eraill Rhaglen i Ddatblygu Arloesedd eraill y Cyngor a gymeradwywyd rhwng Rhagfyr 2001 a Mawrth 2002, tuag at derfyn y cyfnod 'busnes fel arfer'.

1.8 Ym mis Tachwedd 2002, roedd rheolwyr y Cyngor Cenedlaethol wedi nodi pryderon posibl ynghylch prosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop, a atgyfnerthwyd gan gyhoeddiad o ddiswyddiadau diweddar gan Grŵp Cyfryngau Avanti, a sicrhau bod adolygiad archwiliad mewnol wedi'i gynllunio yn cael ei gynnal yn gynharach na'r bwriad. Cynhaliodd yr Archwilwyr Mewnol adolygiad cychwynnol o'r prosiect er mwyn archwilio gwariant hyd yma ac ymchwilio i lle roedd cronfeydd heb eu gwario yn cael eu cadw, a'c fe'u cyflwynwyd i'r Prif Weithredwr bryd hynny yn Rhagfyr 2002. Ar sail y canfyddiadau cychwynnol hyn, dechreuwyd yr ymchwiliad archwilio gan y Prif Weithredwr bryd hynny, gyda'r cylch gorchwyl canlynol:

- Ystyried digonolrwydd ac effeithiolrwydd gweithdrefnau a roddwyd ar waith i reoli'r contract;
- Ystyried pa un a yw cyllid y Cyngor Cenedlaethol wedi'i ddefnyddio mewn ffordd sy'n gyson â'r dibenion y'i darparwyd ar eu cyfer ac yn unol â'r amodau sydd ynghlwm wrth dalu'r cronfeydd hynny;
- Ystyried pa un a oedd y Cyngor Cenedlaethol wedi sicrhau gwerth am arian ar gyfer yr arian a ddarparwyd; ac
- Adolygu'r cynigion ar gyfer datblygu'r prosiect ac ystyried pa un a oeddent yn briodol ar gyfer diogelu arian y cyhoedd a sicrhau y cyflawnwyd amcanion y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer y prosiect hwn.

1.9 Roedd y gwaith archwilio mewnol yn cynnwys adolygiad o bapurau ffeil y prosiect a gedwir gan y Cyngor Cenedlaethol a Grŵp Cyfryngau Avanti (rhiant gwmni Learn to Live Cyf) a thrafodaethau â'r staff presennol sy'n ymwneud â'r prosiectau unigol. Er nad oeddent o dan rwymedigaeth gytundebol i wneud hynny, roedd Grŵp Cyfryngau Avanti wedi caniatáu i'r archwiliwr mewnol gael mynediad i holl lyfrau a chofnodion perthnasol y Grŵp, nid dim ond rhai Learn to Live Cyf.

1.10 Er bod gan Archwilydd Cyffredinol Cymru bwerau mynediad statudol i gofnodion a staff y Cyngor Cenedlaethol, drwy weithio'n agos gyda'r archwilwyr mewnol drwy gydol yr ymchwiliad hwn mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru wedi ceisio osgoi dyblygu ymdrech a sicrhau'r baich craffu archwilio lleiaf posibl ar staff y Cyngor Cenedlaethol.

1.11 Yn ogystal â chynghori tîm archwilio mewnol y Cyngor Cenedlaethol ar gwmpas ei waith a'r ffordd y mae'n ymgymryd ag ef a chynnal ei gyfweliadau ei hun gyda staff y Cyngor Cenedlaethol, mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru wedi gwneud gwaith archwilio craffu pellach mewn meysydd lle nad oedd gan archwilwyr mewnol unrhyw bwerau mynediad, er mwyn cael dealltwriaeth lawn o'r contract gyda Learn to Live Cyf. Mae wedi adolygu papurau perthnasol a gedwir gan Is-adran Dysgu Gydol Oes Llywodraeth y Cynulliad (sy'n gyfrifol am oruchwylio nawdd yn y Cyngor Cenedlaethol) a chyfwelwyd â swyddogion y Cynulliad oedd yn ymwneud â'r prosiectau Rhaglen i Ddatblygu Arloesedd. Cyfarfu Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru hefyd â chyn staff y Cyngor Cenedlaethol, ymgynghorydd a gyflogwyd gan y Cyngor Cenedlaethol er mwyn cydlynu'r prosiectau amrywiol a chyda Grŵp Cyfryngau Avanti.

1.12 Ar ôl ystyried y ddau adroddiad a gynhyrchwyd gan y tîm Archwiliad Mewnol, penderfynodd Cyngor y Cyngor Cenedlaethol benodi Swyddog Ymchwilio er mwyn pennu a oes achos dros gymryd camau disgyblu ymhellach, gan gynnwys camau disgyblu, yn erbyn unrhyw aelod o staff mewn perthynas â'r materion hyn. Mae materion o euogrwydd unigol yn faterion ar gyfer rheolwyr y Cyngor Cenedlaethol, yn hytrach na'r archwiliwr allanol, ac felly nid yw'r adroddiad hwn yn eithrio rhoi ystyriaeth i waith parhaus y Swyddog Ymchwilio ac unrhyw gamau a allai ddeillio o'i ganfyddiadau.

## Cydnabyddiaethau

1.13 Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn cydnabod y cymorth a'r cydweithrediad helaeth a dderbyniwyd gan dîm Archwilio Mewnol y Cyngor Cenedlaethol, ynghyd â staff presennol y Cyngor Cenedlaethol a chyn aelodau o staff, swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Grŵp Ymgynghori PA a Grŵp Cyfryngau Avanti yn ystod yr ymchwiliad hwn.

# RHAN 2 Fframwaith Rheoliadol y Cyngor Cenedlaethol a'i Raglen Arloesi a Datblygu ar gyfer 2001-02

## Cyflwyniad

2.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn nodi'r fframwaith statudol a rheoleiddiol y mae'n ofynnol i'r Cyngor Cenedlaethol weithredu ei Raglen Arloesi a Datblygu o'i fewn. Yn ogystal mae'n nodi'r amgylchiadau a arweiniodd at wariant ar brosiectau o fewn y rhaglen hon yn ystod y flwyddyn ariannol 2001-02.

## Cefndir Statudol

### Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000

2.2 O dan ddarpariaethau Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, mae prif ddyletswyddau a phwerau'r Cyngor Cenedlaethol fel a ganlyn:

- sicrhau y darperir cyfleusterau priodol ar gyfer addysg (heblaw am addysg uwch) sy'n addas ar gyfer gofynion pobl sydd dros oedran ysgol gorfodol ond sydd heb gyrraedd 19 oed;
- sicrhau y darperir cyfleusterau rhesymol ar gyfer addysg (heblaw am addysg uwch) sy'n addas ar gyfer gofynion pobl sydd wedi cyrraedd 19 oed; a
- sicrhau y darperir adnoddau ariannol i:

  (a) bobl sy'n darparu neu'n bwriadu darparu addysg neu hyfforddiant ôl-16;

  (b) pobl sy'n darparu neu'n bwriadu darparu nwyddau neu wasanaethau mewn cysylltiad â darpariaeth addysg neu hyfforddiant ôl-16 gan eraill; a

  (c) pobl sy'n derbyn neu'n bwriadu derbyn addysg neu hyfforddiant ôl-16.

### Rôl y Cyngor

2.3 Mae cyfansoddiad y Cyngor Cenedlaethol wedi'i nodi yn Adran 30 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. Mae Atodlen 4 i'r Ddeddf honno yn rhoi'r pŵer i Gyngor y corff ddirprwyo swyddogaethau i'w Gadeirydd neu ei Brif Weithredwr. Yn ogystal, mae'n darparu ar gyfer dirprwyaethau pellach gan y Cadeirydd i Aelodau eraill o'r Cyngor, a chan y Prif Weithredwr i'w staff ef neu ei staff hi.

### Rôl y Prif Weithredwr

2.4 Penodir Prif Weithredwr y Cyngor Cenedlaethol gan y Cyngor ei hun[1], ac mae hefyd yn Aelod llawn o'r Cyngor. Penodir y Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifo ar gyfer y Cyngor Cenedlaethol gan Ysgrifennydd Parhaol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr wedi'u nodi yng nghanllaw safonol Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifo Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC)' ac, o 24 Mai 2002, fe'u diffiniwyd ymhellach gan Reolau Sefydlog y Cyngor Cenedlaethol.

2.5 Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am stiwardiaeth a gwariant cywir o arian cyhoeddus, a gweithrediadau a rheolaeth ddyddiol y Cyngor Cenedlaethol. Yn ogystal, mae'n rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau cydymffurfiad â'r Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol a gyflwynwyd i'r Cyngor Cenedlaethol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Y Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol

2.6 Fel gyda Chyrff eraill a Noddir gan y Cynulliad, mae'r Datganiad Rheoli yn diffinio'r fframwaith y mae'r Cyngor Cenedlaethol yn gweithredu o'i fewn ac, ynghyd â'r Memorandwm Ariannol, mae'n nodi telerau ac amodau'r Cynulliad ar gyfer darparu arian cymorth grant i'r Cyngor Cenedlaethol. Un o'r amodau hyn yw y gall y Cyngor Cenedlaethol fel arfer gario balansau heb eu gwario o un flwyddyn ariannol i un arall o fwy na'r swm sy'n gyfwerth â dau y cant o'i gyllideb gros y cytunwyd arno.

2.7 Mae Memorandwm ariannol y Cyngor Cenedlaethol yn nodi y dylai ceisiadau am daliadau ymlaen llaw fel arfer gael eu gwrthod ond y dylid, mewn achosion eithriadol, lle yr ystyrir y gellid cyfiawnhau taliad ymlaen llaw i setlo atebolrwydd cytundebol, dilyn yr egwyddorion a nodwyd yn *Government Accounting*. Mae hyn yn ei gwneud yn glir y dylai cyrff cyhoeddus, os ydynt yn dymuno gwneud taliadau ymlaen llaw ar gontractau, ystyried yn gyntaf pa un a yw hyn yn cynrychioli gwerth am arian. Mae natur eithriadol trafodion o'r fath yn golygu eu bod yn debygol o fod yn anghyffredin neu'n ddadleuol ac felly yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Trysorlys (yng Nghymru, cyflawnir y rôl hon gan Swyddog Cydymffurfio'r Cynulliad). Wrth ystyried achos ar gyfer taliad ymlaen llaw, mae'r canlynol yn ofynnol:

1 Yn unol ag Atodlen 4 i Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, penodwyd y Prif Weithredwr gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylai pob Prif Weithredwr dilynol gael ei benodi gan y Cyngor Cenedlaethol gyda chymeradwyaeth y Cynulliad.

- arfarniad ariannol i benderfynu a oes achos o werth am arian;
- tystiolaeth o gydymffurfiad â rheolau caffael yr UE, sy'n diogelu hawl pob cyflenwr posibl i gystadlu ar delerau cyfartal;
- sicrwydd y caiff camau digonol eu cymryd i ddiogelu arian y trethdalwr yn achos y contractiwr yn mynd yn fethdalwr neu fel arall yn methu â chyflawni rhwymedigaethau cytundebol; a
- sicrwydd na chaiff taliad ymlaen llaw ei ddefnyddio at ddibenion osgoi tanwariant mewn blwyddyn ariannol benodol drwy wneud taliad cyn i'r atebolrwydd aeddfedu.

2.8 O dan egwyddorion *Government Accounting*, hyd yn oed os nad yw cymeradwyaeth y Trysorlys yn ofynnol, ni ddylai'r broses fewnol o wneud penderfyniadau fod yn llai trylwyr na'r hyn a nodwyd uchod. Felly ni fyddai'n dderbyniol i sefydliad wneud taliadau o'r fath ymlaen llaw er mwyn osgoi mynd y tu hwnt i uchafswm y cymorth grant y gellir ei gario drosodd, sef dau y cant. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, y camau gweithredu cywir fel arfer fyddai naill ai ad-dalu'r cymorth grant dros ben nas gwariwyd neu geisio cytundeb Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cario swm uwch drosodd.

2.9 Bu sawl achos ers 1999 lle mae cyrff cyhoeddus a noddir wedi gwneud cais i'w his-adrannau nawdd o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru i gario balans uwch o gymorth grant nad yw wedi'i wario drosodd i'r flwyddyn ganlynol, ac i hynny gael ei ganiatáu. (Fel arfer digwyddodd y cymeradwyaethau eithriadol hyn mewn achosion lle mae amseriad disgwyliedig taliadau ar brosiectau cyfalaf neu refeniw penodol wedi'i oedi am gyfnod byr ar draws blynyddoedd ariannol).

2.10 Yn ogystal, mae'r Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol yn nodi'r terfynau dirprwyo a rheolau, rheoliadau a chanllawiau eraill sy'n berthnasol wrth arfer swyddogaethau, dyletswyddau a phwerau'r Cyngor Cenedlaethol. Er enghraifft, mae'r Memorandwm Ariannol yn mynd i'r afael â'r graddau y gall y Cyngor Cenedlaethol drosglwyddo arian cymorth grant o un pennawd cyllideb i un arall heb yr angen i geisio cymeradwyaeth gan swyddogion y Cynulliad. Mae'r Datganiad Rheoli yn cynnwys nifer o Atodlenni, sy'n darparu arweiniad o ran sut y bydd y Cyngor yn cynnal y rhaglenni y mae'n gyfrifol amdanynt.

## Atodlen 8 - Canllawiau ar gyfer Prosiectau Arloesi a Datblygu

2.11 Teitl Atodlen 8 i Ddatganiad Rheoli'r Cyngor Cenedlaethol yw 'Canllawiau ar gyfer Arloesi a Datblygu', ac mae'n darparu arweiniad o ran sut y bydd y Cyngor Cenedlaethol yn ymgymryd â'i Raglen i Ddatblygu Arloesedd. Mae'r atodlen yn nodi diben y rhaglen fel "cryfhau ac ehangu'r ddarpariaeth ddysgu bresennol ac ariannu mentrau newydd i gynorthwyo dysgu gydol oes".

2.12 Wrth weithredu'r Rhaglen, mae paragraff 2.2 Atodlen 8 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Cenedlaethol:

- sicrhau bod ei brosiectau a'i gynlluniau yn cydweddu â pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac yn eu hategu;
- gweithio gyda chynlluniau Consortia Cymunedol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant, a'u hategu, lle y bydd cynlluniau o'r fath yn cyfrannu at wireddu'r amcanion a nodir yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor;
- dangos gwerth am arian ar gyfer arian cyhoeddus;
- mynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd yn y farchnad, a hybu a chynorthwyo buddsoddiad newydd gan y sector preifat;
- hyrwyddo gwelliannau o ran ansawdd a safonau dysgu ôl-16, a'r broses ehangach o gymhwyso arfer da; ac
- addasu i amgylchiadau sy'n newid a sicrhau bod angen y gellir ei brofi ar gyfer parhau cyfranogiad y Cyngor mewn meysydd o weithgarwch.

2.13 Yn ogystal, mae paragraff 5.1 o Atodlen 8 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Cenedlaethol, wrth ddatblygu Cynlluniau neu Brosiectau Arloesi a Datblygu, beidio ag ariannu gweithgarwch Arloesi a Datblygu sy'n gwrthdaro â deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd, yn cynnwys rheolau 'Cymorth y Wladwriaeth' yr Undeb Ewropeaidd.

2.14 Amlygir amcanion y Rhaglen Arloesi a Datblygu yn **Ffigur 1**.

**Ffigur 1**

**Amcanion y Rhaglen Arloesi a Datblygu**

Amcanion y Rhaglen Arloesi a Datblygu yw cynorthwyo gweithgareddau yn y meysydd allweddol canlynol:

- Ymestyn cyfleoedd dysgu i grwpiau sydd o dan anfantais.
- Ehangu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Datblygiad cymunedol a gwaith allymestyn.
- Datblygu ffyrdd mwy hyblyg o ddysgu, yn cynnwys ehangu'r defnydd o ddysgu o bell drwy dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
- Gwella'r ddarpariaeth o'r rhaglen prif ffrwd, yn cynnwys cyfranogi, safonau a mynediad, drwy brosiectau arloesol sydd wedi'u teilwra i anghenion lleol.
- Ymestyn y ddarpariaeth ddysgu a ddarperir drwy'r sector gwirfoddol, yn cynnwys cymorth i ehangu gallu sefydliadau gwirfoddol a sgiliau gweithwyr y sector gwirfoddol i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau'r Cyngor.
- Datblygu rhwydweithiau busnes a grwpiau sector a threfniadau partneriaeth lleol, yn cynnwys y rheini sy'n angenrheidiol fel sail i'r Consortia Cymunedol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant.
- Strategaethau gwella ansawdd.
- Ymateb i ddiswyddiadau sylweddol drwy gymorth ailhyfforddi hyblyg sydd wedi'i deilwra i anghenion lleol.
- Darparu'r hyfforddiant sy'n angenrheidiol ar gyfer llwyddiant prosiectau mewnfuddsoddi, a datblygu cymorth hyfforddi arloesol ar gyfer cwmnïau cynhenid.
- Ymgymryd ag ymchwil a dadansoddiad allanol sy'n angenrheidiol i lywio a chynorthwyo proses gynllunio a phroses weithredol y Cyngor Cenedlaethol.

*Ffynhonnell: Datganiad Rheoli'r Cyngor Cenedlaethol, Atodlen 8 - Canllawiau'r Rhaglen Arloesi a Datblygu 2001*

## Cynllun Gweithredol y Cyngor Cenedlaethol: 2001-02

2.15 Nododd Cynllun Gweithredol y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer 2001-02 fod y rhan fwyaf o'i gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol honno eisoes wedi'i rhwymo drwy'r amrywiol gynlluniau busnes a etifeddodd gan y sefydliadau â'i rhagflaenodd, ond bod swm bach o arian ar gael i'r Gronfa i Ddatblygu Arloesedd ac y byddai'n rhesymol disgwyl i arian pellach gael ei nodi yn ystod y flwyddyn o adolygiadau perfformiad. Yn ogystal, nod y Cynllun Gweithredol y byddai'r Cyngor Cenedlaethol yn asesu prosiectau newydd ar gyfer y Gronfa i Ddatblygu Arloesedd a chymorth arall, drwy ddefnyddio amrywiaeth o feini prawf asesu. Roedd y rhain yn cynnwys y gofyniad y dylai prosiectau o'r fath:

- dorri tir newydd a chynnwys rhesymeg gadarn yn seiliedig ar ymchwil;
- cynnwys allbynnau a chanlyniadau clir, cerrig milltir a fframwaith gwerthuso;
- cynnwys asesiad risgiau a chynigion ar gyfer rheoli risgiau;
- dylai fod yn bosibl terfynu'r prosiectau cyn gynted â bod tystiolaeth bod yr allbynnau a'r canlyniadau yn annhebygol o gael eu gwireddu; a
- dylent fod o faint a fydd yn cynhyrchu canlyniadau ystyrlon.

Rhyddhawyd Cynllun Gweithredol 2001-02 i holl staff y Cyngor Cenedlaethol ac roedd yn ofynnol i'r Cyfarwyddwyr sicrhau bod eu staff yn ei ddeall.

## Arian Ychwanegol ar gyfer y Rhaglen i Ddatblygu Arloesedd yn 2001-02

2.16 Yng nghyfarfod y Cyngor Cenedlaethol ar 22 Tachwedd 2001, dywedwyd wrth Aelodau'r Cyngor bod gwariant cyffredinol rhaglen y Cyngor Cendlaethol yn is na'r proffil ac yn debygol o barhau felly tan 31 Mawrth 2002. Roedd hyn yn bennaf oherwydd tanwariant ar ei raglenni Hyfforddiant a dysgu i Bobl Ifanc ac i Oedolion yn y Gweithle, yr oedd disgwyl iddynt fod tua £14 miliwn yn is na'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2001-02. Digwyddodd y tanwario hyn yn bennaf am fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi setlo honiadau TEC yn uniongyrchol ei hun ar gyfer mis Mawrth 2001 a roedd y Cyngor Cenedlaethol wedi'u clustnodi. Hysbyswyd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad bod eu penderfyniad i ddelio'n brydlon ag ymroddiadau yn codi cyn sefydlu'r Cyngor Cenedlaethol wedi'u ardystio o fewn y prosiect gweithredu ETAP ac roedd yn hysbys i'r Cyngor Cenedlaethol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol 2001-02. Cynghorwyd Aelodau'r Cyngor hefyd bod y Cyngor Cenedlaethol wedi derbyn dyraniadau ariannol ychwanegol o Lywodraeth y Cynulliad yn ystod y flwyddyn ariannol honno. (Roedd y rhain yn ddyraniadau wedi'u clustnodi, sef cyfanswm o tua £5 miliwn, yr hysbyswyd y Cyngor Cenedlaethol ohonynt ym Mai 2001 er mwyn cwmpasu gwariant ychwanegol o fewn y sector Addysg Bellach ac mewn perthynas â chau gweithfeydd Corus).

2.17 Amcangyfrifodd swyddogion y Cyngor Cenedlaethol fod cyfanswm yr arian ychwanegol oedd ar gael i'w fuddsoddi yng ngweddill y flwyddyn ariannol 2001-02 yn gyfanswm o £12 miliwn, ac efallai y byddai'n rhaid ildio tua £10.5 miliwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru oni châi ei wario erbyn 31 Mawrth 2002. Roedd y papur a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 22 Tachwedd 2001 yn cydnabod y byddai buddsoddi £9-10 miliwn yn ddoeth yn y pedwar mis a oedd yn weddill o'r flwyddyn ariannol yn heriol iawn, yn arbennig oherwydd yr agenda o newid a oedd yn wynebu staff y Cyngor Cenedlaethol wrth iddynt geisio cyflawni lleihad yn y costau rhedeg cyn ymarfer ailstrwythuro sylweddol.

2.18 Yn ogystal, roedd papur y Cyngor yn nodi y cafwyd trafodaethau eisoes rhwng swyddogion y Cyngor Cenedlaethol a swyddogion y Cynulliad ynglŷn â'r posibilrwydd o sicrhau lefelau uwch o drosglwyddo arian[2] o 2001-02 i 2002-03 ac, er bod swyddogion y Cynulliad yn cydymdeimlo â'r sefyllfa, nid oedd polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymeradwyo mwy na'r ddau y cant a ganiateir ym Memorandwm Ariannol y Cyngor Cenedlaethol rhag cael ei gario drosodd.

2.19 Roedd y Cyngor Cenedlaethol yn barod i gydnabod na allai ddarparu arian i brosiectau cyn bod ei angen. O ganlyniad, daeth y Cyngor i'r casgliad ei bod yn hanfodol bod yr adnoddau a ddyrannwyd yn cael eu gwario gan dderbynwyr yn ystod y flwyddyn ariannol 2001-02. Yn ogystal, roedd papurau'r Cyngor yn nodi bod yr arian ychwanegol yn gyfle ardderchog i wneud buddsoddiadau mawr i ddangos busnes newydd y Cyngor Cenedlaethol ac i osod y seiliau ar gyfer y dyfodol yn gynharach nag a fyddai wedi bod yn bosibl fel arall. Felly aeth swyddogion y Cyngor Cenedlaethol ati i nodi prosiectau sylweddol yr oedd modd eu rheoli gan noddwyr credadwy y gellid ymddiried ynddynt oedd â'r gallu i ddefnyddio'r arian a roddwyd iddynt gan y Cyngor Cenedlaethol cyn 31 Mawrth 2002.

2.20 Roedd y Cyngor wedi pennu themâu blaenoriaeth ar gyfer y buddsoddiadau ychwanegol. Ar ôl nodi prosiectau penodol, roedd yn angenrheidiol i'r Cyngor Cenedlaethol geisio cymeradwyaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer trosglwyddo arian o gyllidebau lle roedd tanwariant i'r llinellau cyllideb y byddai'r prosiectau arfaethedig newydd yn cael eu hariannu ohonynt (y gronfa Rhaglen i Ddatblygu Arloesedd yn bennaf).

2.21 Ar 30 Tachwedd 2001, ysgrifennodd y Cyngor Cenedlaethol at Is-Adran Dysgu Gydol Oes y Cynulliad er mwyn hysbysu swyddogion ei fod yn bwriadu gwneud buddsoddiadau pellach yn ystod gweddill 2001-02, o hyd at £17 miliwn. Nododd y llythyr faint yr her o fuddsoddi'r cronfeydd hyn erbyn 31 Mawrth a bod dau swyddog (roedd un ohonynt yn ymgynghorydd gyda Grŵp Ymgynghori PA, wedi'i gaffael drwy gontract gyda'r Cyngor Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2001) wedi'u henwebu i gydlynu holl brosiectau arfaethedig y Gronfa i Ddatblygu Arloesedd. Defnyddiwyd yr ymgynghorydd oherwydd prinder sgiliau perthnasol o fewn y Cyngor Cenedlaethol ac oherwydd bod y rheolwyr o'r farn nad oedd yn bosibl dargyfeirio staff o waith arall y rhoddwyd blaenoriaeth iddo ar yr adeg honno.

2.22 Cyfarfu'r ddau swyddog hyn o'r Cyngor Cenedlaethol gyda swyddogion yr Is-Adran Dysgu Gydol Oes ar 5 Rhagfyr 2001, a atebodd ddeuddydd yn ddiweddarach er mwyn nodi'r sail ar gyfer ystyriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru o gynigion y Cyngor Cenedlaethol. Nododd Llythyr y Cynulliad na fyddai'n gweithredu yn ôl unrhyw safonau gwahanol dros y misoedd a oedd yn weddill o'r flwyddyn ariannol. Yn ogystal, nododd yr heriau sylweddol oedd i ddod wrth sicrhau gwerth am arian o fuddsoddiadau ar y raddfa a ragwelwyd, a daeth i'r casgliad y byddai cyflawniad yn dibynnu ar y ddau gorff yn parhau i weithio'n agos iawn gyda'i gilydd. Roedd llythyr y Cynulliad wedi nodi cytundeb yn y cyfarfod y byddai'r Cyngor Cenedlaethol yn sicrhau y byddai'r holl gynigion a gyflwynwyd yn mynd i'r afael â phwyntiau amlwg y Canllawiau Arloesi a Datblygu ac y byddai'n cydymffurfio'n llawn â'r gofynion ar gyfer prosiectau cyfredol a rhai cyfalaf, fel y bo'n briodol. Yn ogystal, nododd llythyr y Cynulliad fod natur yr amserlen yn golygu y byddai'n rhaid i'r broses o gymeradwyo rhai prosiectau fod ar sail amodol, er mwyn i'r Cyngor Cenedlaethol allu datrys y pwyntiau oedd yn weddill ynghyd â gwneud cynnydd gweithredol. Rhagwelodd y llythyr y gallai'r cynigion, er enghraifft, gael eu caniatáu yn amodol ar sicrhau bod camau, diwygiadau neu welliannau'n gofynnol yn cael eu gwneud i'r prosiectau.

2 'Trosglwyddiad arian' yw'r broses lle y caiff arian ei symud rhwng cyllidebau, fel bod gwariant ychwanegol ar un yn cyfateb ag arbedion ar un neu fwy o'r gweddill. Yn ogystal, gellir defnyddio'r broses i drosglwyddo arian rhwng blynyddoedd ariannol. Yn y naill achos, byddai angen i'r Cyngor Cenedlaethol gael caniatâd ymlaen llaw gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

2.23 Ar 6 Rhagfyr 2001, paratôdd yr ymgynhorydd PA o Grŵp Ymgynghori PA adroddiad ar gyfer Prif Weithredwr y Cyngor Cenedlaethol bryd hynny, yn cynnwys manylion cryno o'r prosiectau amrywiol a gynigiwyd er mwyn cyflawni tanwariant posibl o £20 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2001-02. Mae'r adroddiad yn rhestru prosiectau sy'n dod i gyfanswm o dros £28.7 miliwn, o dan themâu amrywiol oedd wedi'u blaenoriaethu ar gyfer y Cyngor Cenedlaethol. Mae un o'r themâu hyn yn dwyn y teitl 'Cynyddu Cyfranogiad mewn Dysgu', ac roedd yn cynnwys pum prosiect sy'n werth cyfanswm o £5.6 miliwn, ac un o'r rhain oedd 'Caffi MP3 y Ganolfan Bop'. Ystyrir y prosiect hwn yn fanwl yn **Rhan 3** o'r adroddiad hwn. Mae **Rhan 4** yn ystyried nifer o'r prosiectau eraill a gychwynnwyd o'r rhestr a ddarparwyd i'r Prif Weithredwr bryd hynny.

# RHAN 3 Prosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop

## Cyflwyniad

3.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn archwilio camau gweithredu'r Cyngor Cenedlaethol a Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran prosiect 'Caffi MP3 y Ganolfan Bop'. Mae'n disgrifio natur a diben y prosiect ac yna'n mynd i'r afael, yn eu tro, â phob un o gamau allweddol y broses gontractio rhwng y Cyngor Cenedlaethol a Learn to Live Cyf ar gyfer cyflawni'r prosiect:

- asesu'r prosiect;
- y broses o gymeradwyo'r prosiect o fewn y Cyngor Cenedlaethol a Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- telerau'r contract a'r graddau yr oedd y rhain yn diogelu sefyllfa'r Cyngor Cenedlaethol; a
- digonolrwydd y trefniadau monitro a rheoli'r prosiect o fewn y Cyngor Cenedlaethol.

I gloi, mae'r rhan hon o'r adroddiad yn gorffen gydag asesiad o ran y graddau y mae'r prosiect yn cynrychioli gwerth da am arian i'r pwrs cyhoeddus ar y cam cynnar hwn o'i ddatblygiad.

## Prosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop: ei natur a'i ddiben

3.2 Bwriedir i brosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop greu canolfan cyfryngau newydd a technoleg gwybodaeth fawr, wedi'i lleoli ger y 'Ffatri Bop' yn y Porth yng Nghwm Rhondda. Cynigwyd y Prosiect fel menter ar y cyd yn cynnwys y Grŵp Cyfryngau Avanti, y Cyngor Cenedlaethol a chyrff cyhoeddus eraill. Mae'r 'Ffatri Bop' ei hun wedi'i lleoli ar safle'r hen ffatri diodydd meddal Corona ac mae'n cynnwys safle ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cyfryngau. Mae'r safle yn cynnwys stiwdios, ystafelloedd golygu digidol a stiwdios recordio sain digidol sy'n datblygu cynnyrch ar gyfer darllediadau teledu rhanbarthol a chenedlaethol.

3.3 Mae'r 'Ffatri Bop' yn eiddo i'r Grŵp Cyfryngau Avanti. Eu cynnig gwreiddiol ar gyfer prosiect oedd sicrhau'r defnydd o hen archfarchnad a'i hadnewyddu i'w defnyddio fel canolfan ddysgu galw i mewn ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed i ddatblygu eu defnydd o'r cyfryngau newydd a thechnoleg gwybodaeth. Bwriad gwreiddiol y Grŵp oedd i'r prosiect gychwyn ym Medi 2002, rhyw chwe mis ar ôl dyfarnu'r contract ar gyfer y prosiect i'r Cyngor Cenedlaethol. Bwriedir i brosiect MP3 y Ganolfan Bop fod yn rhan o strategaeth hirdymor ehangach ar gyfer creu cyfleoedd dysgu i bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig neu rai na fyddai fel arfer yn cael eu denu i raglenni hyfforddi confensiynol.

3.4 Byddai cynnwys yr hyfforddiant a fyddai'n cael ei gynnig yn gwbl newydd ac yn cael ei gynhyrchu drwy gyfres o fodiwlau. Mae'r modiwlau hyn wedi'u cynllunio er mwyn sicrhau mynediad iddynt drwy gymwysiadau e-ddysgu rhyngweithiol, wedi'u hategu gan fentor sydd â phrofiad ymarferol, a chyda phwyslais ar ddysgu wedi'i anelu at nodau allweddol y Cyngor Cenedlaethol.

3.5 Er mwyn rheoli prosiect caffi MP3 y Ganolfan Bop, roedd Grŵp Cyfryngau Avanti wedi sefydlu is-gwmni sy'n eiddo'n gyfan gwbl iddo, sef 'Learn to Live Cyf', a sefydlwyd ar 4 Chwefror 2002.

## Asesiad o'r cynnig prosiect gan y Cyngor Cenedlaethol

3.6 Roedd yr adroddiad cryno a baratowyd (gweler paragraff 2.23) ar gyfer Prif Weithredwr y Cyngor Cenedlaethol bryd hynny yn darparu gwybodaeth sylfaenol ar bob un o'r prosiectau a restrwyd. O ran prosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop, nododd yr adroddiad y byddai'r prosiect yn rhedeg o Ionawr 2002 i Ragfyr 2004, gyda phroffil gwario o rhwng £2.6 miliwn a £4 miliwn erbyn 31 Mawrth 2002.

### Cydymffurfiad â gofynion y Memorandwm Ariannol

3.7 Mae'r Memorandwm Ariannol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r Cyngor Cenedlaethol yn Ebrill 2001, ynghyd ag arweiniad atodol a roddwyd i'r holl staff, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Cenedlaethol weithredu yn ôl yr un safonau rheolaeth ariannol â'r holl Gyrff Eraill a Noddir gan y Cynulliad. Fel arfer byddai'r rhain yn cynnwys cynnal gwiriadau ymarferoldeb ariannol ar unrhyw drydydd parti o'r sector preifat yr oedd wedi bwriadu trefnu contract â hwy.

3.8 Ar gyfer ei raglen i Ddatblygu Arloesedd, roedd y Cyngor Cenedlaethol wedi datblygu ffurflen gais benodol ar gyfer prosiectau er mwyn sicrhau y cyflwynwyd gwybodaeth ar brosiectau mewn modd cyson gan gynorthwyo'r broses arfarnu. Fodd bynnag, roedd gweithdrefnau gweithredu'r Cyngor Cenedlaethol ar gyfer ei reolwyr prosiectau yn bennaf y mynd i'r afael â'r broses o gwblhau'r ffurflen gais ei hun a'r broses i'w mabwysiadu wrth sicrhau cymeradwyaeth ffurfiol ar gyfer bob un ohonynt. Nid oedd y gweithdrefnau hyn yn cynnwys cydrannau hanfodol megis yr angen i staff y Cyngor Cenedlaethol gynnal gwiriadau ymarferoldeb ariannol yr ymgeisydd, asesiad risgiau trylwyr ac arfarnu opsiynau. Dywedodd Prif Weithredwr y Cyngor Cenedlaethol bryd hynny

wrth Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru bod hyn oherwydd bod canllawiau gweithredu'r TEC a etifeddwyd wedi ei gwneud yn ofynnol i'r staff gynnal gwiriadau dichonolrwydd ariannol fel rhan o'r broses o gynnal asesiadau risgiau a'i fod yn ei ystyried felly yn rhesymol i ddisgwyl y byddai'r staff yn parhau i gymhwyso hyn o fewn y corff newydd heb yr angen am arweiniad newydd.

3.9 Roedd Learn to Live Cyf yn gwmni newydd, a sefydlwyd fel is-gwmni gan Grŵp Cyfryngau Avanti sy'n eiddo'n gyfan gwbl iddo, yn benodol ar gyfer rheoli'r contract arfaethedig gyda'r Cyngor Cenedlaethol. Oherwydd nad oedd gan y cwmni, felly, unrhyw hanes o gyflawni prosiectau, ni fyddai wedi bod yn bosibl i'r Cyngor Cenedlaethol fod wedi cynnal unrhyw asesiad ymarferoldeb ariannol o Learn to Live Cyf cyn ffurfio'r contract. Fodd bynnag, er y gallai asesiad o'r fath fod wedi'i wneud gan y Cyngor Cenedlaethol ar y Grŵp Cyfryngau Avanti ei hun, ni wnaed unrhyw asesiad o'r rhiant gwmni cyn llofnodi'r contract. Dywedodd swyddogion y Cyngor Cenedlaethol wrth Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru na wnaed asesiad ymarferoldeb ariannol cyntaf o Grŵp Cyfryngau Avanti tan fis Medi 2002; rhyw chwe mis ar ôl i'r Cyngor Cenedlaethol dalu £4 miliwn i Learn to Live Cyf. Datgelodd yr asesiad hwnnw, ym Medi 2002, nad oedd cyfrifon Grŵp Cyfryngau Avanti am y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2001 wedi'u cofnodi yn Nhŷ'r Cwmnïau.

3.10 Canfu ymchwiliad dilynol gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru bod cyfrifon cryno rhiant gwmni Grŵp Cyfryngau Avanti Cyf wedi'u cofnodi yn Nhŷ'r Cwmnïau ers hynny. O dan Ddeddf Cwmnïau 1985, caniateir i gwmnïau baratoi cyfrifon cryno os ydynt yn cymhwyso fel cwmnïau 'bach mewn perthynas â blwyddyn ariannol'. Mae Adran 248 o'r Ddeddf Cwmnïau yn nodi y caiff amodau cymhwyso ar gyfer cwmni 'bach' eu bodloni mewn blwyddyn pan fydd y cwmni yn bodloni dau neu fwy o'r gofynion canlynol:

- **Trosiant** - trosiant blynyddol heb fod yn fwy na £2.8 miliwn
- **Cyfanswm y Fantolen** - asedau net nad ydynt yn fwy na £1.4 miliwn
- **Nifer y Cyflogeion** - Heb fod yn fwy na 50 o gyflogeion

3.11 Mae'r ffaith bod Cwmni Cyfryngau Avanti Cyf wedi cynhyrchu cyfrifon cryno yn arwyddocaol, oherwydd bod contract y Cyngor Cenedlaethol gyda Learn to Live Cyf yn £4 miliwn - ffigur sydd dipyn yn fwy na throsiant cyfan y grŵp ar gyfer y flwyddyn hyd 31 Rhagfyr 2001. Pe byddai hyn yn hysbys i staff y Cyngor Cenedlaethol pan oeddent yn arfarnu'r prosiect, mae'n debygol y byddai gallu Learn to Live Cyf i reoli prosiect mor fawr wedi bod yn elfen allweddol o feini prawf asesu'r prosiect. Dywedodd Grŵp Cyfryngau Avanti wrth Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru pe byddai proffil wedi'i ffurfio o lif arian parod cyllid prosiect y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer oes y contract sef tair blynedd, byddai hyn wedi bod yn fwy cydnaws â gallu ariannol y Grŵp.

## Asesiad Risgiau o'r Prosiect

3.12 Fel y nodwyd ym mharagraff 3.8, ar yr adeg y cyflwynwyd y prosiect i'w gymeradwyo'n fewnol, nid oedd y Cyngor Cenedlaethol wedi rhoi arweiniad manwl i'r rheolwyr prosiect ar y gweithdrefnau i'w mabwysiadu wrth ddatblygu ac arfarnu prosiectau unigol. Nid oedd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn gallu dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i asesiad risgiau ffurfiol o'r prosiect gael ei gynnal.

3.13 Mae'r diffyg asesiad risgiau manwl o'r prosiect yn adlewyrchu diffyg difrifol, gan fod hyn yn un o ofynion y canllawiau oedd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r Cyngor Cenedlaethol ar gyfer 2001-02. Byddai asesiad o'r fath wedi bod yn arbennig o werthfawr yn yr achos hwn oherwydd maint y prosiect, ymrwymiad ariannol arfaethedig y Cyngor Cenedlaethol a natur arloesol a heb ei brofi y prosiect. Yn ogystal, byddai asesiad risgiau wedi pwysleisio'r ffaith nad oedd gan naill ai Learn to Live Cyf na Grŵp Cyfryngau Avanti ei hun unrhyw brofiad blaenorol o ddatblygu modiwlau hyfforddi rhyngweithiol - y cysyniad yr oedd y prosiect cyfan yn seiliedig arno. Ni fyddai unrhyw un o'r ffactorau hyn o reidrwydd wedi golygu y byddai'r Cyngor Cenedlaethol yn gwrthod darparu cyllid, ond byddai asesiad risgiau ffurfiol wedi galluogi i'w staff ddatblygu strategaethau rheoli risgiau er mwyn mynd i'r afael â phob ffactor risg mewn ffordd strwythuredig a chydlynus.

**Ffigur 2**

**Crynodeb o'r Costau Amcangyfrifedig ar gyfer Caffi MP3 y Ganolfan Bop**

| Costau | Blwyddyn 1 £ | Blwyddyn 2 £ | Blwyddyn 3 £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| Costau Staff | 1,084,500 | 1,232,625 | 1,378,085 | 3,695,210 |
| Costau Eraill | 2,778,500 | 3,616,975 | 2,333,578 | 8,729,053 |
| Costau Trafnidiaeth | 50,000 | 60,000 | 70,000 | 180,000 |
| Costau Cyfalaf | 955,000 | 77,500 | 77,500 | 1,110,000 |
| **Cyfanswm** | **4,868,000** | **4,987,100** | **3,859,163** | **13,714,263** |

*Ffynhonnell: Ffurflen Gais Arloesi a Datblygu'r Cyngor Cenedlaethol*

## Nodau ariannu'r Cyngor Cenedlaethol ar gyfer y prosiect

3.14 Roedd y ffurflen gais ar gyfer y prosiect, a baratowyd gan staff y Cyngor Cenedlaethol yn dilyn trafodaethau gyda Learn to Live Cyf ac a gyflwynwyd i'w chymeradwyo i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ar y pryd ar 10 Rhagfyr 2001, yn nodi y byddai'r £4 miliwn arfaethedig o arian y Cyngor Cenedlaethol yn cael ei ddefnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol 2001-02 i gaffael y safle a phrynu'r cyfarpar cyfalaf. Dywedodd Grŵp Cyfryngau Avanti wrth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ei fod wedi awgrymu ar y pryd y dylai'r £4 miliwn gael ei roi mewn cyfrif ysgrow a'i wario fel bo'r angen gan Learn to Live Cyf (trefniant cyffredin ar gyfer ei gontractau â darlledwyr eraill). Barnodd y Cyngor Cenedlaethol y byddai trefniant o'r fath yn amhriodol ar gyfer Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a gwrthododd yr awgrym hwn, a hynny'n briodol.

3.15 Mae dadansoddiad ariannol, yn cynnwys cyfeiriad at arian a ragwelir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac yn dangos cyfanswm amcangyfrifiedig o'r costau o ryw £13.7 miliwn ar gyfer blynyddoedd un i dri, wedi'i gynnwys yn y ffurflen gais. Ceir crynodeb o'r costau hyn yn **Ffigur 2**. Yn y cais nodwyd yr ymchwiliwyd i bob ffynhonnell ariannu bosibl. Fodd bynnag, ni nododd y cais yn benodol yr hyn y byddai cyfraniad £4 miliwn y Cyngor Cenedlaethol yn talu amdano, ac ni nododd y ffynonellau ar gyfer y £9.7 miliwn oedd yn weddill o'r arian a ragwelwyd.

3.16 Yn ogystal, roedd diffyg eglurder yn y ffurflen gais ynghylch y canlyniadau hyfforddi a fyddai'n cael eu cyflawni gan y prosiect a sut y byddai'r rhain yn cydfynd â thargedau strategol ac amcanion perfformiad y Cyngor Cenedlaethol. Fel y digwyddodd, nid ymdriniodd y Cyngor Cenedlaethol yn ddigonol ag unrhyw rai o'r diffygion hyn cyn i'r contract gyda Learn to Live Cyf gael ei lofnodi.

# Y broses o gymeradwyo'r Prosiect

## Cydymffurfiad â Deddf Dysgu a Sgiliau 2000

3.17 Fel y nodwyd ym mharagraff 2.2, mae Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Cenedlaethol fynd i'r afael ag addysg a hyfforddiant oedolion a phobl ifanc dros 16 oed.

3.18 Roedd prosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop, fel yr amlinellwyd yn ffurflen gais y Prosiect Arloesi a Datblygu, yn unol â'r gofyniad statudol hwn, oherwydd bod y prosiect wedi'i dargedu at bobl ifanc 16 i 25 oed. Fodd bynnag, roedd y ffurflen gais hefyd yn cynnwys cyfeiriad at ddarpariaeth hyfforddiant ar gyfer "ieuenctid rhan amser wedi'u heithrio" yn y grŵp oedran 14-16. Roedd disgwyl i'r categori hwn o gleient gyfrif am oddeutu 50 y cant o'r holl bobl ifanc y disgwyliwyd iddynt ddilyn â cyrsiau yn y caffi.

3.19 Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn nodi bod partneriaid eraill y sector preifat yn y prosiect 'cyd-fenter' gwerth £13 miliwn hwn yn cynnwys yr Awdurdod Addysg Lleol, sy'n meddu ar y pŵer statudol i ddarparu gwasanaethau addysg ac ieuenctid i bobl ifanc o dan 16 oed. Fodd bynnag, gan nad oedd yr union ddibenion y byddai arian y Cyngor Cenedlaethol yn cael ei ddyrannu ar eu cyfer wedi'u nodi yn y ffurflen gais na'r contract terfynol, ni allwn gadarnhau pa elfen o'r £4 miliwn (os o gwbl) y bwriadwyd ei chyfeirio at y grŵp cleientiaid o dan 16 oed.

## Cydymffurfiad ag Atodlen 8 o'r Datganiad Rheoli

3.20 Fel y nodwyd ym mharagraff 2.11, nodir canllawiau ar gyfer gweithgareddau Arloesi a Datblygu'r Cyngor Cenedlaethol yn Atodlen 8 o'i Ddatganiad Rheoli. Mae tîm archwilio mewnol y Cyngor Cenedlaethol a Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru wedi dod i'r casgliad bod rhai agweddau ar brosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop yn anghyson â gofynion yr atodlen honno. Mae'r anghysonderau allweddol fel a ganlyn:

- Nid oedd y sail statudol ar gyfer cyfranogiad y Cyngor Cenedlaethol yn y prosiect wedi'i chwmpasu gan y ffurflen gais, ac nid oes tystiolaeth bod goblygiadau gofynion Cymorth y Wladwriaeth wedi'u hystyried; ac

- Nid oedd tystiolaeth i ategu'r lefelau rhagweledig o ganlyniadau hyfforddiant ar gyfer unigolion ar raglenni hyfforddiant o fewn y prosiect, ac nid oedd unrhyw gerrig milltir wedi'u pennu.

## Dirprwyadau'r Cyngor Cenedlaethol i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

3.21 Yng nghyfarfod y Cyngor Cenedlaethol ar 22 Tachwedd 2001 (gweler paragraff 2.16), cytunodd y Cyngor i ddirprwyo awdurdod i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr bryd hynny, er mwyn llunio rhaglen o fuddsoddiadau pellach o dan y Gronfa i Ddatblygu Arloesedd, a fyddai'n gwneud defnydd o'r adnoddau a drosglwyddwyd o linellau cyllideb a oedd yn tanwario.

3.22 Yn fuan ar ôl cyfarfod y Cyngor, cyfarfu Cadeirydd y Cyngor Cenedlaethol, a'r Prif Weithredwr bryd hynny, er mwyn gwneud penderfyniadau ar bob un o'r prosiectau Cronfa i Ddatblygu Arloesedd a gyflwynwyd iddynt. Gwnaed asesiad o bob un o'r prosiectau, gan godi materion ar bob un lle yr oedd angen gwybodaeth neu eglurhad pellach arnynt cyn iddyn nhw allu mynd ymlaen. Mewn tri achos fe'u cyfeiriwyd nôl i'r Prif Weithredwr ar y pryd am gymeradwyaeth derfynol. Anfonwyd yr asesiad i'r uwch reolwyr o fewn y Cyngor Cenedlaethol ar 19 Rhagfyr 2001 ac yna fe'i anfonwyd i swyddogion o fewn adran nawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

3.23 O ran prosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop, mynegodd y ddogfen asesu bryderon ynglŷn â maint y cyllid y gwnaed cais amdano, a fyddai cyfraniadau eraill yn cael eu cyflawni a pha fesurau y gallai'r Cyngor Cenedlaethol eu cymryd i ddiogelu ei fuddsoddiad. Awgrymodd y ddogfen y dylai'r Cyngor Cenedlaethol nodi cyfres bendant o weithgareddau dysgu y gellid darparu arian cychwynnol ar eu cyfer cyn 31 Mawrth 2002, er mwyn sicrhau rhywfaint o elw canfyddadwy am ei gyfraniad[3]. Nododd adroddiad Archwilio Mewnol y Cyngor Cenedlaethol na chanfuwyd unrhyw gofnod o unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd gan staff y Cyngor Cenedlaethol mewn ymateb i'r pryderon hyn. O dan unrhyw amgylchiadau, ni chyflwynwyd unrhyw adroddiad yn ôl i'r Cadeirydd, a'r Prif Weithredwr bryd hynny, fel bo angen cyn i'r contract gael ei lofnodi gan staff y Cyngor Cenedlaethol.

## Ystyriaeth Llywodraeth y Cynulliad o'r prosiect

3.24 Anfonwyd manylion prosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop, ynghyd â manylion pedwar prosiect ar bymtheg arall y ceisiwyd cymeradwyaeth frys ar eu cyfer, gan y Cyngor Cenedlaethol i'w adran nawdd o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru ar 19 Rhagfyr 2001. Cyflwynwyd y rhain mewn dwy ddogfen:

- crynodeb o'r holl brosiectau a argymhellwyd; ac

- asesiad o'r prosiectau gan Gadeirydd y Cyngor Cenedlaethol, a'r Prif Weithredwr bryd hynny.

Yn dilyn hynny, cyflwynwyd y ceisiadau manwl i swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn iddynt eu hystyried.

3 Ceir manylion pellach am gynnwys y ddogfen hon yn y gronoleg (cyf: 19 Rhag 2001) yn Atodiad 1.

## Ffigur 4

**Diffygion allweddol yng nghontractau'r Cyngor Cenedlaethol gyda Learn to Live Cyf**

- Cafodd Atodiad B o'r contract ei ddrafftio fel contract ar gyfer gwasanaethau - cyflawni pum modiwl, y byddai'r Cyngor Cenedlaethol yn talu £2.35 miliwn amdanynt. Er nad yw'r contract yn cynnwys unrhyw ddiffiniad o'r hyn a olygir gan 'wariant cymwys', mae hefyd yn datgan y caiff y swm sy'n daladwy gan y Cyngor ei ostwng i'r lefel gwariant gwirioneddol a wariwyd gan y contractiwr. Mae hyn yn creu anghysondeb, yn yr ystyr y byddai angen i unrhyw asesiad o'r lefel gwariant gwirioneddol a geir o dan y contract gael ei ddefnyddio hefyd i bennu pa wariant sy'n 'gymwys'.
- Mae'r contract yn cyfeirio at "lefel wirioneddol gwariant y contractiwr - Learn to Live Cyf". Fodd bynnag, mae'r contract hefyd yn caniatáu i Learn to Live Cyf is-gontractio gwaith i gwmnïau eraill yn y grŵp, gan greu'r risg y gallai'r cwmnïau hynny godi tâl am ffin elw sy'n cynhyrchu elw ar Learn to Live Cyf er na achoswyd costau i'r grŵp yn gyffredinol.
- Mae'r contract yn rhedeg tan 2005, ond nid yw'n cynnwys unrhyw 'gerrig milltir' ar gyfer asesu cynnydd a gwneud penderfyniadau i derfynu'r contract, os yw'n briodol.

*Ffynhonnell: Tîm archwilio mewnol y Cyngor Cenedlaethol*

## Efallai nad yw'r contract yn cydymffurfio â gofynion Cymorth y Wladwriaeth

3.37 Mae'r diffiniad o 'gymorth y wladwriaeth' wedi'i gynnwys yng Nghytundeb Rhufain. Mae Erthygl 88 yn gwahardd 'unrhyw gymorth a roddir gan Aelod-Wladwriaeth neu drwy adnoddau'r wladwriaeth mewn unrhyw ffurf o gwbl sy'n aflunio neu'n bygwth aflunio cystadleuaeth drwy roi ffafriaeth i gwmnïau penodol neu'r broses o gynhyrchu rhai nwyddau'. Mae sawl math o gymorth y wladwriaeth yn cynnwys derbyn nwyddau neu wasanaethau am brisiau cymorthdaledig. Ceir crynodeb o'r rheolau, a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, yn **Ffigur 5**.

3.38 Nid yw asesu sefyllfa cymorth y wladwriaeth o ran prosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop yn broses syml oherwydd nid yw'n dilyn y model safonol o gynlluniau cymorth y wladwriaeth, sydd fel arfer yn grantiau neu'n gymorthdaliadau lle y gellir nodi a mesur yr elfen o gymorth yn glir. I gychwyn, roedd y Cyngor Cenedlaethol wedi llunio'r contract drafft gyda Learn to Live Cyf fel cytundeb arian grant ar gyfer caffael y safle a phrynu offer cyfalaf, ond ar ôl

## Ffigur 5

**Crynodeb o reolau'r Comisiwn Ewropeaidd yn ymwneud â Chymorth y Wladwriaeth**

Mae cymorth y wladwriaeth yn cynnwys:

- '**trosglwyddo adnoddau'r wladwriaeth**';
- '**mantais economaidd** na fyddai'r fenter wedi ei derbyn o dan amodau busnes arferol';
- '**detholusrwydd**' - y disgresiwn i benderfynu pa fentrau sy'n derbyn cymorth; ac
- 'effaith **bosibl ar gystadleuaeth a masnach rhwng aelod-wladwriaethau**. Mae'n ddigonol os gellir dangos bod y buddiolwr yn ymwneud ag unrhyw weithgarwch economaidd a'i fod yn gweithredu mewn marchnad lle mae masnach rhwng Aelod-Wladwriaethau'.

Dim ond pan fydd pob un o'r amodau uchod yn codi y ceir achos o *dorri* rheolau cymorth y wladwriaeth.

hynny fe'i ail-luniwyd yn gontract ar gyfer darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, gall y contract gynnwys goblygiadau o ran cymorth y wladwriaeth o hyd, ac ystyrir y rhain yn y paragraffau canlynol.

3.39 Drwy ddefnyddio'r meini prawf a nodir yn Ffigur 5, mae'n amlwg y bu **trosglwyddiad o adnoddau'r wladwriaeth a detholusrwydd**, oherwydd bod gan y Cyngor y disgresiwn i ddethol sefydliad arall i gyflawni nodau'r prosiect.

3.40 Mae'r sefyllfa o ran **mantais economaidd** yn llai clir. Y dull arferol o sicrhau nad yw caffaeliadau yn rhoi mantais economaidd anawdurdodedig di-alw-amdano i'r contractiwr yw gosod pob prif gontract cyhoeddus drwy gystadleuaeth agored, ac mae'r Undeb Ewropeaidd wedi sefydlu rheoliadau cadarn i'r perwyl hwn. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i brif gontractau gael eu hysbysebu yng Nghylchgrawn Swyddogol y Gymuned Ewropeaidd (OJEC) a sicrhau bod y ceisiadau sy'n deillio o hynny yn cael eu hasesu'n ddiduedd yn erbyn meini prawf a bennir ymlaen llaw. Nid oedd y prosiect yn destun proses gaffael gystadleuol, ac felly ni fu prawf gwrthrychol o ran pa un a yw Learn to Live Cyf wedi cael mantais economaidd ormodol o'r prosiect. Fodd bynnag, mae'r agweddau canlynol ar y contract yn awgrymu y gallai hyn fod wedi digwydd:

- derbyniodd y cwmni o leiaf £1.87 miliwn cyn bod ei angen, ac enillodd log ar hyn (er bod y symiau nas gwariwyd a'r holl log a gronnwyd wedi'u had dalu'n wirfoddol i'r Cyngor Cenedlaethol gan Learn to Live Cyf ers hynny);

- mae llawer o gostau'r prosiect yn ymwneud â gwasanaethau a ddarparwyd gan rannau eraill o Grŵp Cyfryngau Avanti, a byddai absenoldeb rheolaethau cytundebol ar y ffioedd rhyng-gwmnïol yn caniatáu posibilrwydd o elw gael ei gynhyrchu sy'n fwy na'r elw sydd ar gael o'r busnes arferol ar gyfer y grŵp cyfan; ac
- fel y caniateir yn benodol o dan amodau'r contract, mae Learn to Live Cyf yn defnyddio asedau cyfalaf a arianwyd gan y Cygor Cenedlaethol ar gyfer ei weithgareddau busnes masnachol eraill.

3.41 Gofynnodd y Cyngor Cenedlaethol i'r cwmni cyfreithiol Eversheds ei gynghori ar y broses o ddrafftio'r contract. Wrth adolygu contract drafft a ddarparwyd gan y Cyngor Cenedlaethol (yn unol â chyfarwyddiadau llafar y Cyngor Cenedlaethol), rhoddodd Eversheds sylwadau ysgrifenedig bod y trefniadau arfaethedig yn *"arbennig o anarferol oherwydd, yn fy mhrofiad i, pan brynir gwasanaethau gan y sector cyhoeddus ni fydd unrhyw ddarpariaethau'n ymwneud ag ennill cyflogeion neu brynu cyfarpar oherwydd caiff hyn ei gynnwys yn y pris cyfan."*[4] Yn ogystal, nododd Eversheds nad oedd y contract fel y'i drafftiwyd yn cynnwys darpariaethau sy'n caniatáu i'r Cyngor Cenedlaethol adfer unrhyw ffioedd gan y cwmni y gellid canfod yn ddiweddarach eu bod yn gymorth y wladwriaeth anghyfreithlon. I gloi, mynegodd Eversheds pryderon hefyd ynghylch y diffyg ymarfer caffael mewn perthynas â dyfarnu contract ar gyfer gwasanaethau.

3.42 Nid yw'n bosibl sefydlu pa un a fyddai'r arian a ddarparwyd gan y Cyngor Cenedlaethol o dan y contract hwn yn cael **effaith bosibl ar gystadleuaeth a masnach rhwng aelod-wladwriaethau'r** Undeb Ewropeaidd heb fwy o wybodaeth am y lefel o fasnach rhwng aelod-wladwriaethau o ran y math o wasanaethau a ddarperir gan y prosiect hwn. Nodwn fod cymal 12 o'r contract yn sicrhau bod Learn to Live Cyf yn cadw'r holl hawliau eiddo deallusol o ran y modiwlau. Mae Atodiad D o'r contract yn gytundeb trwydded rhwng Learn to Live Cyf a'r Cyngor Cenedlaethol, sy'n rhoi trwydded gyfyngedig i'r Cyngor Cenedlaethol ddefnyddio'r modiwlau yng Nghymru ond sy'n gadael yr hawl i'r cwmni ddefnyddio'r modiwlau y tu allan i Gymru er mwyn cael elw masnachol. Gallai'r modiwlau (Saesneg) sydd i'w cynhyrchu o dan Atodiad B y contract fod â gwerth masnachol i Grŵp Cyfryngau Avanti wrth geisio dechrau masnachu mewn unrhyw farchnad a allai fodoli mewn mannau eraill o fewn yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y cysyniad hyfforddi hwn.

3.43 Ar y cyfan, rydym wedi canfod na chafodd goblygiadau cymorth y wladwriaeth y contract eu hasesu'n gywir gan y Cyngor Cenedlaethol. Ystyriwn fod risg sylweddol bod y Cyngor Cenedlaethol wedi darparu cymorth y wladwriaeth anawdurdodedig i Learn to Live Cyf. Mae'r Cyngor Cenedlaethol wedi gweithredu er mwyn egluro pa un a yw ei gytundeb cyfreithiol gyda Learn to Live Cyf mewn gwirionedd yn gontract ar gyfer darparu gwasanaethau neu a yw, o ran sylwedd a/ neu fwriad yn gytundeb grant ariannol, ac wedi ceisio barn arbenigol ar unrhyw oblygiadau o ran Cymorth y Wladwriaeth potensial sy'n gysylltiedig â'r contract.

3.44 Yn ogystal, ystyriwn fod y ffaith na chafodd y contract â Learn to Live Cyf ei osod yn gystadleuol yn fater o bryder. Nid yw'r Cyngor Cenedlaethol wedi gallu darparu unrhyw dystiolaeth ei fod wedi ystyried ffyrdd amgen o sicrhau'r buddiannau a ragwelwyd o gyflawni prosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop heblaw am drwy Learn to Live Cyf. I'r graddau mai caffaeliad yn hytrach na grant yw'r prosiect, mae risg ddifrifol bod y Cyngor Cenedlaethol wedi torri rheoliadau caffael Ewropeaidd drwy beidio â gwahodd cwmnïau i dendro am y contract.

## Roedd diffyg diffiniadau ystyrlon o'r canlyniadau disgwyliedig yn y contract

3.45 Mae'r contract yn nodi sut y bwriadwyd dyrannu'r £4 miliwn o arian y Cyngor Cenedlaethol ar draws y tri Atodiad, fel y nodwyd yn Ffigur 3. Fodd bynnag, nid yw'r contract a'r atodiadau yn ddigon penodol i alluogi i'r Cyngor Cenedlaethol ddangos y bydd yn cyflawni gwerth am arian dros oes y prosiect o'r arian a ddarparwyd i Learn to Live Cyf. Yn wir, nid oedd tîm Archwilio Mewnol y Cyngor Cenedlaethol yn gallu dod i gasgliad yn ei adroddiad ei hun o ran pa un a sicrhawyd gwerth am arian hyd yma. Yn benodol, nid yw Atodiad B (prif elfen y contract, ar gyfer cynhyrchu pum modiwl rhyngweithiol am £2.35 miliwn) yn nodi beth fydd cynnwys y modiwlau, sut byddant yn cael eu datblygu neu ar beth yn union y gwerir yr arian a ddyfernir o dan y pennawd hwn. Yn ogystal, nid yw'r contract yn cynnwys 'cerrig milltir' y gellir asesu a monitro cynnydd yn eu herbyn.

4 Llythyr gan Eversheds i'r Cyngor Cenedlaethol, 18 Chwefror 2002.

3.46 O dan delerau'r contract a lofnodwyd, ymddengys mai'r unig ganlyniad mesuradwy yw pa un a fydd y Cyngor yn derbyn y pum 'modiwl rhyngweithiol' mewn gwirionedd. Fe'n hysbyswyd gan Grŵp Cyfryngau Avanti bod nifer y modiwlau, gyda chytundeb llafar y Cyngor Cenedlaethol, wedi gostwng i bedwar ers hynny (oherwydd bod cynnwys y pumed modiwl wedi'i integreiddio i'r pedwar arall am resymau addysgol). Cynhaliwyd peilot o'r modiwl cyntaf, ar Deledu, ar 16-18 Gorffennaf 2003 gan ddeuddeg o bobl ifanc a oedd wedi'u cyfeirio at y prosiect gan sefydliadau lleol. Profasant y rhaglenni teledu rhyngweithiol a chynhyrchwyd fideo byr ganddynt a darn o berfformiad stiwdio tra'n gweithio mewn partneriaeth â'u mentoriaid, technegwyr staff Grŵp Cyfryngau Avanti a thîm y prosiect.



3.47 Dywedodd Grŵp Cyfryngau Avanti wrthym y bu'r peilot yn destun proses ddilysu allanol annibynnol, a ddaeth i'r casgliad nad oedd yr amcanion yn ymwneud â 'chynnwys', 'cymhelliant' a 'dysgu' wedi'u cyflawni'n llwyddiannus. Mae'r Grŵp yn gobeithio y bydd yn gallu cynnal peilot o'r modiwl Cerddoriaeth yn ddiweddarach yn yr hydref.

## Caniatawyd isgontractio o fewn Grŵp Cyfryngau Avanti

3.48 O dan Adran 14 o'r contract, mae gan Learn to Live Cyf yr hawl i isgontractio ei rwymedigaethau i unrhyw aelod o'r un grŵp o gwmnïau. Canfu tîm Archwilio Mewnol y Cyngor Cenedlaethol fod Grŵp Cyfryngau Avanti, o dan y trefniadau hyn, yn ceisio codi ffi o £155,000 am y defnydd o'i nod masnach 'Ffatri Bop' mewn cysylltiad â'r prosiect a'i fod hefyd wedi codi ffioedd rheoli o ryw £53,000 ar Learn to Live Cyf, fel y dangosir yn **Ffigur 6**.



3.49 Dywedodd Grŵp Cyfryngau Avanti wrth Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru fod materion eiddo deallusol yn ganolog i'r prosiect cyfan, oherwydd bod y nod masnach 'Ffatri Bop' i'w ddefnyddio yn eang er mwyn denu pobl ifanc i'r prosiect. Nid aethpwyd i'r afael â hyn yn ddigonol ac roedd yn destun trafodaeth bellach rhwng Learn to Live Cyf a'r Cyngor Cenedlaethol. Mae'r grŵp yn ystyried bod y ffi'r drwydded yw'r unig ddiogelwch sydd gan frand ag iddo enw da pan gaiff ei gymhwyso i farchnad newydd a allai fod yn niweidiol i'w enw da petai'n aflwyddiannus. Yn ogystal, golygodd y gwasanaethau

**Ffigur 6**

**Gwariant nad yw wedi'i nodi yng nghontract y Cyngor Cenedlaethol**

| Maes Gwariant | Amcangyfrif o'r Gost |
|---|---|
| Y defnydd o drwydded Nod Masnach Grŵp Cyfryngau Avanti. | £155,000 |
| Ffioedd rheoli a godwyd gan Grŵp Cyfryngau Avanti fel y gost o gynnal y prosiect yn hytrach na chynnal gweithgareddau masnachol eraill. | £53,000 |
| Costau a wariwyd gan Grŵp Cyfryngau Avanti ar y prosiect cyn cychwyn y contract. | £91,000 |
| Costau Rhedeg, yn cynnwys Ffioedd Cyfreithiol, Cyfrifo a chymorth Ysgrifenyddol a gorbenion yn ymwneud â gwariant eiddo yn bennaf. | £202,000 |
| Gwaith cyfalaf ym mhrif adeilad y 'Ffatri Bop'. | £270,000 |

*Ffynhonnell: Tîm archwilio mewnol y Cyngor Cenedlaethol*

rheoli helaeth a ddarparwyd gan Grŵp Cyfryngau Avanti i gydlynu'r prosiect nad oedd ei uwch swyddogion gweithredol yn gallu datblygu ei fusnes presennol ac roedd yn rhaid iddynt ailgodi ffioedd ar gyfer eu hamser masnachol i gostau rhedeg y prosiect wrth iddo dyfu. Mae Learn to Live Cyf yn ystyried ei fod, yn absenoldeb brîff prosiect clir, wedi gwneud ei ymdrechion gorau i gyflawni gofyniad y prosiect.

### Ni chaiff rhai eitemau o wariant gan Learn to Live Cyf eu cwmpasu gan y contract

3.50 Mae tîm Archwilio Mewnol y Cyngor Cenedlaethol wedi cadarnhau bod elfennau o'r arian a ddarparwyd gan y Cyngor Cenedlaethol wedi'i ddefnyddio gan Learn to Live Cyf ar gyfer eitemau o wariant nad oedd cyfeiriad atynt yn y contract gwreiddiol. Yn ogystal, mae'r eitemau hyn wedi'u nodi yn Ffigur 6.

## Monitro a Rheoli Prosiectau

### Ni chymerwyd sylw o hysbysiad Learn to Live Cyf o'r llithriant ar y prosiect

3.51 Mae cymal 5.4 o'r contract yn nodi "Rhaid i geisiadau gael eu gwneud ar 20 Mawrth 2002 neu cyn y dyddiad hwnnw. Ni chaiff arian ei dalu gan y Cyngor [Cenedlaethol] ar gyfer unrhyw geisiadau a wneir ar ôl y dyddiad hwn". Cyflwynodd Learn to Live Cyf anfonebau o ran pob un o'r tri atodiad contract i'r Cyngor Cenedlaethol ar 5 Mawrth 2002.

3.52 Fodd bynnag, ar 15 Mawrth 2002, ysgrifennodd Learn to Live Cyf i'r Cyngor Cenedlaethol gan nodi *"y dylid gohirio [prynu] rhai eitemau yn Atodiad C [ar gyfer cyfarpar cyfalaf] er budd gorau gwerth am arian ac addasrwydd at y pwrpas"*. Cyfeiriodd llythyr y cwmni at drafodaethau cynharach gyda thîm rheoli contractau'r Cyngor Cenedlaethol a nododd amrywiaeth o resymau dros ohirio'r gwariant. Yn y pedair wythnos flaenorol, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac Awdurdod Datblygu Cymru wedi cynnig cynorthwyo'r prosiect drwy ariannu adeiladu adeilad newydd ar gyfer y caffi MP3, yn hytrach na pharhau â'r cynnig gwreiddiol i adnewyddu'r hen archfarchnad. Nododd Learn to Live y byddai'r newid hwn, er ei fod yn ddymunol, yn oedi'r prosiect ac nad oedd llawer o bwrpas prynu cyfarpar ar gyfer y prosiect nad oedd modd ei ddefnyddio bryd hynny oherwydd byddai'r cyfnodau gwarant yn dechrau dirwyn i ben a gallai'r cyfarpar ei hun ddod yn ddarfodedig.

3.53 Mae'r Cyngor Cenedlaethol wedi cadarnhau na chymerwyd unrhyw gamau gweithredu pan dderbyniwyd y llythyr hwn cyn talu'r £4 miliwn i Learn to Live Cyf yn llawn ar 27 Mawrth 2002.

### Roedd y broses o fonitro'r Contract yn annigonol

3.54 Nododd ffurflen gais y Prosiect i Ddatblygu Arloesedd y dylai'r prosiect hwn gael ei fonitro drwy gyfarfodydd ffurfiol 'ar ddyddiadau i'w cadarnhau, ond o leiaf bob chwarter'. Yn ogystal, nododd y byddai adroddiad misol gan y cwmni, yn dangos dadansoddiad o'r gwariant hyd yma a'r cynnydd a wnaed ar y prosiect, yn cael ei drafod â rheolwr prosiect y Cyngor Cenedlaethol.

3.55 Mae'r Cyngor Cenedlaethol wedi cynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda Learn to Live Cyf, er nad yw'r rhain wedi'u cynnal bob chwarter. Ni pharatowyd adroddiadau ariannol misol rhwng Mawrth a Thachwedd 2002, ac er i Learn to Live Cyf gyflwyno adroddiad ar gynnydd y prosiect ym Medi 2002, ni chyflwynwyd ei adroddiad monitro prosiect ffurfiol cyntaf yn rhoi crynodeb o'r gwariant hyd yma yn erbyn y tri atodiad i'r Cyngor Cenedlaethol tan fis Tachwedd 2002.

3.56 Mae Adran 6 y contract yn nodi y bydd y prosiect yn destun adolygiad a phroses fonitro gan 'Fwrdd Rheoli Prosiectau', a fydd yn cyfarfod bob tri mis ac yn cynhyrchu adroddiad ar bob cyfarfod o fewn tri diwrnod gwaith o gynnal y cyfarfod. Byddai manylion am gyfansoddiad y Bwrdd yn cael eu nodi yn Atodiad E i'r contract. Fodd bynnag, nid yw Atodiad E yn bodoli ac o ganlyniad nid chafodd y contract ei fonitro'n ffurfiol yn unol â'r telerau ac amodau.

### Nid oedd y contract yn ddigon penodol ac ni chyflawnwyd pob un o'r amodau talu

3.57 Rhannwyd cyfanswm gwerth y contract o £4 miliwn rhwng y tri Atodiad A i C, fel y dangosir yn Ffigur 3, a gwnaed taliad llawn gan y Cyngor Cenedlaethol ar 27 Mawrth 2002. Roedd y perfformiad yn erbyn amodau'r contract ym mhob un o'r Atodiadau fel a ganlyn:

**Atodiad A: £176,250 ar gyfer darparu Cynllun Recriwtio a Hyfforddi**

3.58 Roedd Learn to Live Cyf wedi cyflwyno anfoneb ym Mawrth 2002 am £176,250 ar gyfer "cymorth ariannol i hwyluso'r broses o gynhyrchu cynllun recriwtio yn unol â'r contract". Mae cymal 5.3.1 o'r contract yn nodi na fydd rhwymedigaeth ar y Cyngor i wneud y taliad hwn hyd nes bydd y Contractiwr yn darparu copi o'i Gynllun Recriwtio a Hyfforddi. Noda Atodiad A o'r contract y dylai Learn to Live Cyf gynhyrchu cynllun recriwtio ar gyfer yr holl staff a ddylai, fel isafswm, gynnwys:

- rhestr o swyddi newydd, gydag amlinelliad o bob un;
- y dyddiadau recriwtio a ragwelir ar gyfer pob swydd;
- rhestr o'r swyddi presennol a'u cysylltiadau â'r prosiect;
- rhaglen sefydlu wedi'i chynllunio ar gyfer pob aelod o staff (cyflogeion newydd a rhai presennol); a
- dylai enghreifftiau o Gynllun Hyfforddi Cwmni a Chynllun Datblygu Unigol gael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o staff yn dilyn recriwtio a sefydlu.

3.59 Mae'r Cyngor Cenedlaethol wedi derbyn Cynllun Recriwtio a Hyfforddi gan Learn to Live Cyf ond - o ganlyniad i'r oedi gyda chynnydd y prosiect - er bod nifer o staff y prosiect wedi'u cyflogi gan Learn to Live Cyf, nid oes unrhyw staff sy'n gysylltiedig ag agor Caffi MP3 y Ganolfan Bop wedi'u recriwtio na'u hyfforddi hyd yma. Mae'r taliad o £176,250 wedi'i fwriadu i gwmpasu'r broses o recriwtio, sefydlu a hyfforddi'r holl staff sy'n ymwneud â phrosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop.

**Atodiad B: £2,350,000 ar gyfer datblygu pum modiwl rhyngweithiol**

3.60 Cyflwynodd Learn to Live anfoneb i'r Cyngor am y swm uchod (yn cynnwys TAW) ar 5 Mawrth 2002, er mwyn ariannu'r gwaith o ddatblygu cynnwys y pum modiwl rhyngweithiol a nodwyd yn Atodiad B i'r contract.

3.61 Mae'r contract yn cynnwys tair 'rhag-amod' i'w bodloni cyn y gallai arian gael ei ryddhau o dan Atodiad B, ond nis bodlonwyd dwy o'r rhain cyn i'r taliad gael ei wneud gan y Cyngor Cenedlaethol. Ni dderbyniwyd cyfrifon y cwmni (er bod yr amod hon o'r contract yn ddiystyr oherwydd nad oedd gan Learn to Live Cyf unrhyw hanes o fasnachu, ac nid oedd gofyniad i gyfrifon Grŵp Cyfryngau Avanti gael eu darparu i'r Cyngor Cenedlaethol). Yn ogystal, ni ddarparwyd cadarnhad ysgrifenedig gan y cwmni nad oedd morgeisi, taliadau neu feichiau a fyddai'n berthnasol i unrhyw rai o'r cyfarpar a oedd yn ofynnol ar gyfer darparu'r gwasanaethau.

3.62 Nid oes unrhyw dystiolaeth bod y Cyngor Cenedlaethol wedi nodi ar adeg y taliad nad oedd y rhag-amodu wedi'u bodloni, neu bod yr amodau'n cael eu hildio.

**Atodiad C: £1,473,750 Prynu cyfarpar**

3.63 Roedd Learn to Live Cyf wedi anfonebu'r Cyngor Cenedlaethol am yr arian hwn ar 5 Mawrth 2002. Nododd y contract na fydd rhwymedigaeth ar y Cyngor Cenedlaethol i wneud taliadau o ran Atodiad C hyd nes y bydd Learn to Live Cyf wedi darparu tystiolaeth o rwymedigaeth gytundebol i brynu'r cyfarpar a / neu gyflwyno copïau o anfonebau sy'n rhoi tystiolaeth o'r gwariant a wariwyd gan y cwmni wrth brynu'r cyfarpar.

3.64 Mae tîm Archwilio Mewnol y Cyngor Cenedlaethol wedi sefydlu mai dim ond ar gyfer tua £351,000 o'r gwariant y bodlonwyd yr amodau talu cytundebol. Cafwyd dyfyniadau neu amcangyfrifon am £1,234,000 pellach gan y cwmni ac fe'u rhoddwyd i'r Cyngor Cenedlaethol, ond nid yw'r rhain yn cynrychioli rhwymedigaethau cytundebol gwirioneddol yr oedd y cwmni'n ymrwymedig iddynt, ac felly nid ydynt yn bodloni amodau'r taliad a nodwyd yn y contract.

## Materion sy'n ymwneud â Gwerth am Arian

### Roedd amseriad y taliad i Learn to Live Cyf yn cynrychioli taliad o angen ymlaen llaw ac mae wedi peryglu'r broses o gyflawni gwerth am arian

3.65 Yn absenoldeb tystiolaeth ysgrifenedig, mae'n anodd sefydlu i sicrwydd beth oedd sail y Cyngor Cenedlaethol dros ryddhau £4 miliwn i Learn to Live Cyf ar 27 Mawrth 2002. Roedd swyddogion y Cyngor Cenedlaethol yn ymwybodol, erbyn y dyddiad hwnnw, bod natur a strwythur y prosiect wedi newid yn sylweddol yn ystod yr ychydig

wythnosau ers llofnodi'r contract. Yn wir, roedd Learn to Live Cyf ei hun wedi cynghori'r Cyngor Cenedlaethol yn ysgrifenedig ar 15 Mawrth 2002 ei fod yn argymell gohirio rhywfaint o'r gwariant cyfalaf a nodwyd yn Atodiad C i'r contract. Felly ymddengys yn debygol bod y penderfyniad i ryddhau'r cronfeydd cyfan cyn 31 Mawrth 2002 wedi'i hybu gan ddymuniad y Cyngor Cenedlaethol i leihau ei danwariant amcangyfrifiedig ym mlwyddyn ariannol 2001-02, er mwyn sicrhau bod ei arian yn cael ei ddefnyddio er budd addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

3.66 Er y caniateir gwneud taliad ymlaen llaw i gontractiwr lle y gellir cyfiawnhau hyn ar sail gwerth am arian, nid oedd y Cyngor Cenedlaethol wedi paratoi achos busnes er mwyn asesu a oedd taliad ymlaen llaw yn briodol yn yr achos hwn. Oherwydd maint y swm dan sylw, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ystyried y byddai taliad ymlaen llaw yn yr achos hwn wedi bod yn 'arloesol ac yn ddadleuol' ac felly y dylai'r Cyngor Cenedlaethol fod wedi ceisio cymeradwyaeth am y taliad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ni wnaed hyn.

3.67 At hynny, oherwydd bod yr oedi gyda'r prosiect yn hysbys ar yr adeg y gwnaed y taliad gan y Cyngor Cenedlaethol, a'r ffaith nad oedd yr holl amodau contract wedi'u bodloni gan y contractiwr bryd hynny, mae Swyddfa Archwilio Gyffredinol Cymru wedi dod i'r casgliad bod bron hanner o'r £4 miliwn yn cynrychioli taliad cyn bod ei angen, yn groes i ofynion '*Government Accounting*'.

## Nid oedd y contract yn ddigon penodol ynglŷn â chymhwyster y costau a wariwyd

3.68 Roedd y dadansoddiad o wariant y prosiect a ddarparwyd gan Learn to Live Cyf i'r Cyngor Cenedlaethol yn ddiweddar yn cynnwys tua £860,000 o gostau mewn cysylltiad â staff, staff annibynnol a gorbenion. Mae'r costau hyn yn seiliedig ar y dyraniadau amser staff a gorbenion cysylltiedig a wnaed gan y cwmni. Fodd bynnag, oherwydd nad oedd Learn to Live Cyf wedi cadw taflenni amser ar gyfer ei staff neu ei gyflogeion annibynnol cyn Ionawr 2003, nid yw'n bosibl cadarnhau cywirdeb yr amcanbrisiau hyn. Nid yw'r contract ei hun yn nodi ar ba sail y gall costau staff a gorbenion cysylltiedig gael eu hawlio gan y cwmni yn erbyn yr arian a ddarperir gan y Cyngor Cenedlaethol, ac mae'r Cyngor Cenedlaethol wedi methu â chyfathrebu ei ddisgwyliadau wrth Learn to Live Cyf o'r cychwyn o ran cadw dogfennaeth i ategu gwariant ar y prosiect.

## Nid yw'r contract yn sôn am driniaeth o log banc

3.69 Yn wreiddiol, derbyniodd Learn to Live Cyf £4 miliwn gan y Cyngor Cenedlaethol ar 27 Mawrth 2002. Mae'r contract wedi rhagweld y byddai'r arian hwn yn cwmpasu gwariant a dalwyd gan y cwmni ac nid oedd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer trin llog ar falansau arian parod. Fodd bynnag, oherwydd bod rhywfaint o'r £4 miliwn wedi'i dalu cyn bod ei angen, mae Learn to Live Cyf wedi ennill llog ar yr arian oedd heb ei wario. Yn dilyn trafodaethau rhwng y cwmni a'r Cyngor Cenedlaethol, ad-dalodd Learn to Live Cyf £1,670,336 (yn cynnwys £74,495 o log a enillwyd gan y cwmni ar y balans arian parod na chafodd ei wario) ar 7 Chwefror 2003, a £276,108 pellach ar 21 Mai 2003. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor Cenedlaethol a Learn to Live Cyf yn trafod pa un a oes unrhyw gyfiawnhad dros ad-dalu rhagor o'r arian.

# Camau unioni a gymerwyd gan y Cyngor Cenedlaethol

3.70 Yn wreiddiol roedd adolygiad Archwiliad Mewnol o brosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop wedi'i amserlennu fel rhan o adolygiad ehangach o brosiectau Arloesi a Datblygu i'w gynnal yng Ngwanwyn 2003. Symudwyd y gwaith hwn ymlaen i Ragfyr 2002 ar gais staff y Cyngor Cenedlaethol, yn dilyn derbyn adroddiad monitro ffurfiol cyntaf y prosiect gan Learn to Live Cyf ym mis Tachwedd 2002. Roedd yr adroddiad hwnnw wedi nodi bod rhyw £1.7 miliwn o'r £4 miliwn o arian y Cyngor Cenedlaethol wedi'i wario ar y prosiect rhwng mis Mawrth a Hydref 2002 - lefel o wariant a oedd yn ymddangos yn anghyson â chynnydd y prosiect.

3.71 Cynhaliwyd adolygiad cychwynnol gan yr Archwilwyr Mewnol, a gyflwynodd adroddiad drafft dros dro i'r Prif Weithredwr bryd hynny ar 11 Rhagfyr 2002. Yna cafodd y cylch gorchwyl llawn ar gyfer adolygiad manwl o'r prosiect (gweler paragraff 1.8) ei gyflwyno i'r tîm Archwilio Mewnol. Yna rhoddodd y Prif Weithredwr bryd hynny gyfarwyddiadau i dîm rheoli contractau'r Cyngor

Cenedlaethol i geisio negodi gyda Learn to Live Cyf ar gyfer adennill arian y Cyngor Cenedlaethol nad oedd wedi'i wario a chynnal adolygiad o statws y prosiect. Fel y nodwyd ym mharagraff 3.69 cafodd yr arian nas gwariwyd, yn ogystal â llog, eu hadennill mewn dau daliad gan y cwmni yn Chwefror a Mai 2003.

3.72 Hysbysodd y Cyngor Cenedlaethol fy staff fod ei dîm rheoli contract wedi bod yn gweithio gyda Learn to Live Cyf ers Rhagfyr 2002 er mwyn sicrhau bod y modiwl cyntaf ar gyfer yr ymarfer peilot yng Ngorffennaf 2003 yn cael ei gwblhau (gweler paragraff 3.46). Ar y cyd â'r broses hon, mae'r Cyngor Cenedlaethol wedi bod yn adolygu statws y prosiect ac yn ystyried opsiynau ar ei gyfer. Mae'r Cyngor Cenedlaethol wedi cytuno â Learn to Live Cyf bod llawer o'r £770,000 o gostau a nodwyd gan yr archwilwyr mewnol yn anghyson â'r contract gwreiddiol (gweler Ffigur 6) yn cael eu hystyried fel rhai sydd yn ysbryd y contract hwnnw. Yn ogystal, mae Grŵp Cyfryngau Avanti wedi hysbysu'r Cyngor Cenedlaethol y bydd e'n ildio ei hawliau masnachol o dan gytundeb Atodiad D i ddefnyddio'r modiwlau y tu allan i Gymru (gweler paragraff 3.42).

# Casgliadau Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

## Ar y Gweithdrefnau Gwneud Cais am Brosiect a'i Gymeradwyo

Roedd y rheolaethau a sefydlwyd yn ystod y broses gwneud cais a chymeradwyo yn annigonol oherwydd:

- diffyg dadansoddiad manwl gan y Cyngor Cenedlaethol o'r allbynnau a'r canlyniadau arfaethedig sydd wedi'u cynnwys yng nghais y prosiect, a sut y byddai'r rhain yn cyd-fynd â'i amcanion strategol.
- proses wael ar gyfer nodi risgiau a'r diffyg cynigion manwl ar gyfer rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â phrosiect mor newydd ac arloesol, yn groes i ganllawiau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredol y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer 2001-02.
- y diffyg dogfennaeth i ddangos bod y Cyngor Cenedlaethol wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i ba un a oedd modd i nodau'r prosiect gael ei gyflawni mewn unrhyw ffordd arall neu bod y cydymffurfiad â chanllawiau Cymorth a Chaffael y Wladwriaeth Ewropeaidd wedi'u hasesu.
- y methiant i gynnal asesiad ymarferoldeb ariannol o Grŵp Cyfryngau Avanti cyn i'r contract gael ei lofnodi ac anallu'r Cyngor Cenedlaethol i asesu gallu'r cwmni i reoli prosiect mor fawr yn dilyn hynny.

Roedd staff y Cyngor Cenedlaethol wedi methu â mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r materion a godwyd gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr bryd hynny yn eu hasesiad cychwynnol o'r prosiect, neu gyflwyno adroddiadau yn ôl i'r Prif Weithredwr bryd hynny ar unrhyw un o'r pwyntiau yr oedd ef a'r Cadeirydd wedi'u codi cyn i'r contract gael ei lofnodi gan staff y Cyngor Cenedlaethol.

Yn ogystal, mae methiant swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cyngor Cenedlaethol i nodi'r materion a drafodwyd yn eu cyfarfod ar 10 Ionawr 2002 yn golygu nad yw'n bosibl sefydlu gyda sicrwydd y cafodd yr holl faterion perthnasol a oedd yn weddill eu hystyried a'u datrys cyn ceisio cymeradwyaeth Weinidogol ar gyfer y prosiect.

## Ar ddigonolrwydd dogfennaeth y Contract

Nid oedd dogfennaeth y contract wedi diogelu sefyllfa'r Cyngor Cenedlaethol yn ddigonol ac roedd yn anghyson â'r cais gwreiddiol i'r Gronfa i Ddatblygu Arloesedd a ddarparwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac i'r Cadeirydd a Phrif Weithredwr ar y pryd.

Nid oedd natur y gwariant i'w ariannu gan y Cyngor Cenedlaethol wedi'i ddiffinio'n ddigonol yn y contract. Nid yw Atodiad B i'r contract yn diffinio'r hyn sy'n gyfwerth â 'modiwl' ac nid oes esboniad o ran sut y byddai datblygu pum modiwl yn costio £2.35m.

Mae prinder diffiniadau o 'wariant cymwys' yn y contract ac nid yw'n atal codi ffioedd rhyng-gwmnïol o fewn Grŵp Cyfryngau Avanti gan gynnwys maint yr elw ar gyfer gwaith a gyflawnir.

Nid yw'r newidiadau yn natur a chwmpas y contract wedi'u cofnodi'n ffurfiol drwy'r defnydd o amrywiadau contract. Mae'r diffyg cofnodion cyfoes o gyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng y Cyngor Cenedlaethol a'r cwmni yn golygu ei bod yn anodd cadarnhau cymhwyster y gwariant mewn perthynas â'r prosiect. Nodwn nad oedd y Cyngor Cenedlaethol wedi darparu arweiniad i Learn to Live Cyf ar y gofynion monitro ariannol ac atebolrwydd sydd wedi'u nodi yn y contract.

# Casgliadau Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

## Ar y taliad o £4 miliwn gan y Cyngor Cenedlaethol ym Mawrth 2002

Roedd y taliad o £4 miliwn gan y Cyngor Cenedlaethol i Learn to Live Cyf ar 27 Mawrth 2002 wedi'i hybu gan ddymuniad i sicrhau'r tanwariant amcangyfrifiedg lleiaf posibl ar gyfer y flwyddyn ariannol 2001-02 er mwyn sicrhau y byddai'r arian sydd ar gael iddo yn cael ei ddefnyddio er budd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Roedd yn ymwybodol bod amserlen y prosiect wedi'i newid yn sylweddol ac roedd y cwmni ei hun wedi gofyn am ohirio rhai elfennau o'r gwariant cyfalaf.

Nid oes tystiolaeth ddogfennol bod y Cyngor Cenedlaethol wedi ystyried yr achos gwerth am arian ar gyfer taliad ymlaen llaw, ac roedd yn amlwg bod bron hanner y £4 miliwn wedi'i dalu cyn bod ei angen. Mae hyn er gwaetha'r ffaith bod staff y Cyngor Cenedlaethol wedi derbyn hysbysiad ysgrifenedig gan y cwmni, cyn rhyddhau'r £4 miliwn, ei fod yn dymuno gohirio elfennau o'r gwariant cyfalaf a nodwyd yn Atodiad C y contract. Ni ofynnwyd ac ni chafwyd cymeradwyaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwneud taliad ymlaen llaw.

## Ar ddigonolrwydd y broses o fonitro prosiectau gan y Cyngor Cenedlaethol

Roedd diffygion sylweddol ym mhrosesau'r Cyngor Cenedlaethol ar gyfer monitro a chyflwyno adroddiadau ar gynnydd y prosiect hwn. Er bod Learn to Live Cyf wedi cynhyrchu crynodeb o'r cynnydd ar y prosiect ym mis Medi 2002, ni chafodd yr adroddiad monitro prosiect ffurfiol cyntaf a baratowyd gan y cwmni ei gyflwyno i'r Cyngor Cenedlaethol tan fis Tachwedd 2002, rhyw saith mis ar ôl i'r £4 miliwn gael ei dalu i'w cwmni. Amlygodd yr adroddiad hwnnw lefel o wariant nad oedd yn adlewyrchu canfyddiad y Cyngor Cenedlaethol o gynnydd y prosiect ar yr adeg honno a'r pryderon hyn a arweiniodd at yr adolygiad manwl o'r prosiect gan y tîm Archwilio Mewnol.

Gwnaed newidiadau sylweddol i'r wybodaeth wreiddiol y cafwyd cymeradwyaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ei chyfer, ond ni roddwyd gwybod iddi am y newidiadau hyn ac ni cheisiwyd cymeradwyaethau newydd.

## O ran cyflawni Gwerth am Arian

Oherwydd bod y prosiect wedi'i amserlennu i barhau tan 2005, nid yw'n bosibl, ar hyn o bryd, dod i gasgliad pendant ynghylch i ba raddau mae arian y Cyngor Cenedlaethol o £4 miliwn wedi sicrhau gwerth da am arian ar gyfer y pwrs cyhoeddus.

Mae'r tîm Adolygu Mewnol wedi canfod bod £770,000 o arian y Cyngor Cenedlaethol a wariwyd ar y prosiect Learn to Live Cyf yn anghyson â'r contract gwreiddiol (er y cytuna'r ddwy ochr erbyn hyn bod llawer o hyn o fewn ysbryd y contract hwnnw). Yn ogystal, canfuwyd bod prinder tystiolaeth i gadarnhau bod yr holl arian a wariwyd gan y cwmni wedi'i ddefnyddio at y dibenion y'i bwriadwyd ar eu cyfer, er bod y Cyngor Cenedlaethol wedi methu â chyfleu ei ddisgwyliadau yn ymwneud â chadw dogfennau i ategu gwariant ar y prosiect i Learn to Live Cyf o'r cychwyn.

Mae'r cyfuniad o'r taliad ymlaen llaw a'r mesurau diogelu contract aneffeithiol wedi rhoi rheolaeth gyfyngedig iawn i'r Cyngor Cenedlaethol dros sut y dylai'r cwmni wario'r arian a ddarparwyd ac mae wedi peryglu'r broses o gyflawni gwerth da am arian. Fodd bynnag, ers hynny mae Learn to Live Cyf wedi ad-dalu bron £1.95 miliwn o'r £4 miliwn gwreiddiol i'r Cyngor Cenedlaethol, er nad oedd rhwymedigaeth gytundebol benodol arno i wneud hynny.

# RHAN 4 Adolygiad o Brosiectau'r Rhaglen eraill i Ddatblygu Arloesedd

## Cyflwyniad

4.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn rhoi crynodeb o'r prif faterion a nodwyd gan y tîm Archwilio Mewnol a Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru mewn cysylltiad ag 17 o'r prosiectau eraill sy'n rhan o'r Rhaglen i Ddatblygu Arloesedd. Mae'r prosiectau hyn wedi'u rhestru yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.

## Prosiectau'r Rhaglen i Ddatblygu Arloesedd

4.2 Mae paragraffau 2.16-2.23 o'r adroddiad hwn yn nodi o dan ba amgylchiadau y lluniodd y Cyngor Cenedlaethol restr o brosiectau posibl yn Rhagfyr 2001, yr oedd modd rhoi arian iddynt er mwyn gwella cyfleoedd dysgu ac osgoi'r risg o danwariant sylweddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2001-02.

4.3 Cymeradwywyd deunaw prosiect unigol o'r rhestr hon, yn cynnwys prosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop, gyda chyfanswm gwerthoedd o ychydig dros £12 miliwn gan y Cyngor Cenedlaethol rhwng Rhagfyr 2001 a Chwefror 2002. Ystyriwyd pob prosiect gan Gadeirydd y Cyngor Cenedlaethol a'r Prif Weithredwr bryd hynny, o dan y pwerau a ddirprwywyd iddynt gan y Cyngor yn ei gyfarfod fis Tachwedd 2001 (gweler paragraffau 3.21 a 3.22). Fel gyda phrosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop, yn y rhan fwyaf o'r achosion lle roeddent wedi rhoi cymeradwyaeth, dywedwyd bod hyn ar y sail bod rhai amodau wedi'u bodloni neu bod gwaith pellach wedi'i wneud. Roedd y Cyngor Cenedlaethol yn rhagweld y byddai gwariant ar y prosiectau hyn, gyda'i gilydd, yn defnyddio llawer o'r tanwariant a ragwelwyd yn y flwyddyn ariannol 2001-02.

4.4 Roedd deg prosiect ar gyfer datblygu ystadau mewn Sefydliadau Addysg Bellach ac roedd y saith arall, yn ogystal â Chaffi MP3 y Ganolfan Bop, yn brosiectau penodol a oedd o fewn cylch gwaith y Rhaglen.

4.5 I gychwyn, cafodd y deg prosiect datblygu ystadau eu cyflwyno i'r Cyngor Cenedlaethol o dan ei Fenter Cronfa Seilwaith a Datblygu, rhaglen a oedd yn gyfan gwbl ar wahân i'r Gronfa i Ddatblygu Arloesedd. Roedd cyfanswm o £4 miliwn ar gael o dan y fenter honno, ond derbyniwyd 23 o geisiadau gwerth cyfanswm o oddeutu £43 miliwn gan sefydliadau a oedd ymhell y tu hwnt i'r arian oedd ar gael. O ganlyniad, cafodd y cynigion prosiect hyn eu hailgyflwyno i'w hystyried o dan y cynllun Cronfa i Ddatblygu Arloesedd pan ddaeth y sefyllfa tanwariant a ragwelwyd yn amlwg.

## Materion a nodwyd o adolygiadau archwilio 17 o brosiectau eraill

4.6 Yn dilyn cwblhau adolygiad y tîm Archwilio Mewnol o gontract y Cyngor Cenedlaethol gyda Learn to Live Cyf, cytunodd y tîm, â Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, y dylai gynnal adolygiad o'r 17 o brosiectau eraill o fewn y rhaglen Cronfa i Ddatblygu Arloesedd y cyfeiriwyd ati ym mharagraff 4.3. Cafodd y cam hwn ei gymeradwyo gan Brif Weithredwr dros dro'r Cyngor Cenedlaethol a oedd hefyd, mewn penderfyniad ar wahân, wedi comisiynu adolygiad o reolaeth yr holl brosiectau gweithredol eraill ar draws holl weithrediadau'r corff.

4.7 Canfu'r adolygiad archwilio mewnol, a ategwyd gan archwiliadau o ffeiliau a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar yr wyth prosiect mwyaf yn y rhaglen (y rhai oedd yn fwy na £250,000) fod sawl un o'r gwendidau allweddol a nodwyd yn ystod ymdriniaeth y Cyngor Cenedlaethol â phrosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop hefyd yn bodoli mewn prosiectau eraill o fewn y rhaglen. Ceir crynodeb o'r gwendidau hyn yn **Ffigur 7**.

4.8 Hysbysodd y Cyngor Cenedlaethol fy staff fod yr 17 o brosiectau wedi cynhyrchu gwelliannau sylweddol wrth gyflawni addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Yn erbyn y cefndir bod angen atgyweirio neu newid sylweddol ar draean o'r ystadau addysg bellach, dosbarthwyd £6.3 miliwn o'r arian ar gyfer y prosiectau hyn i golegau addysg bellach i'w fuddsoddi mewn gwella adeiladau a chyfarpar. Roedd y buddsoddiadau hyn yn cynnwys Canolfannau Technoleg, Canolfan ar gyfer Rhagoriaeth mewn Peirianneg a Blociau Technoleg Gwybodaeth a Chelf newydd, sydd oll yn helpu colegau i gyflawni safon uwch o ran darpariaeth ddysgu.

4.9 Nod y buddsoddiad o £3.7 miliwn yng ngholegau Gogledd Cymru oedd sicrhau bod eu cyfarpar technoleg gwybodaeth a pheirianneg yn cyrraedd safonau'r diwydiant ac felly sicrhau bod gan fyfyrwyr fynediad i adnoddau o'r radd flaenaf. Mae tri o'r colegau wedi cysylltu arian y Cyngor Cenedlaethol â chais ehangach ar gyfer arian o Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac wedi sicrhau £2m o arian ychwanegol. Mae'r Cyngor Cenedlaethol yn ystyried bod y seilwaith yn ymwneud ag addysg peirianneg yng Ngogledd Cymru wedi'i ehangu'n sylweddol o ganlyniad i'r buddsoddiad hwn ac mae eisoes wedi cael cryn effaith ar ansawdd y ddarpariaeth sydd ar gael, gan fod o fudd i fyfyrwyr, staff a'r gymuned fusnes ehangach yng Ngogledd Cymru.

## Arolwg y Cyngor Cenedlaethol o bob prosiect byw a gweithredu mewn ffordd gywirol

4.10 Mae arolwg y Cyngor Cenedlaethol o bob un o'r prosiectau byw eraill wedi enwi diffygion rheoli tebyg mewn ystod eang o brosiectau. Mae gwaith ar y gweill i ddogfennu'r prosiectau hyn, gan gynnwys y rhai a ddaeth o gyrff rhagflaenyddion.

4.11 Mae'r Cyngor yn cymeradwyo prosiectau ar eu rhinweddau wrth edrych yn ôl a lle mae'n briodol maent yn cymeradwyo'r prosiectau sy angen. Cynhelir trafodaethau ar wahân â Llywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol y Cyngor Cenedlaethol er mwyn sicrhau eu bod nhw'n glir ac yn addas.

4.12 Mae'r Cyngor Cenedlaethol yn sefydlu uned cydsyniad newydd i sicrhau bod pob gwariant presennol a dyfodol yn cydymffurfio â Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol. Yn ychwanegol cafodd y staff hyfforddiant rheoli o dan gontract ac mae arweiniad o ran rheoli prosiectau a hyfforddiant hefyd ar waith. Mae ffordd newydd, safonol o drin prosiect wedi cael ei datblygu a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer pob cymeradwyaeth mewnol ac allanol yn y dyfodol.

## Ffigur 7

### Gwendidau a nodwyd ymhlith 17 o'r prosiectau eraill o fewn Rhaglen i Ddatblygu Arloesedd y Cyngor Cenedlaethol

**Ar y broses o arfarnu a chymeradwyo'r Prosiect:**

- Nid oedd ffurflenni cais y prosiect wedi'u cwblhau'n llawn mewn saith achos, ac felly nid oedd yn bosibl cynnal arfarniad cynhwysfawr o bob prosiect cyn eu cymeradwyo.
- Ni chynhaliwyd asesiadau risgiau ffurfiol mewn unrhyw un o'r 17 o achosion.
- Nid oes unrhyw dystiolaeth bod cydymffurfiad gyda rheoliadau Cymorth y Wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd wedi'i ystyried yn ystod y prosesau cymeradwyo ar unrhyw un o'r pedwar prosiect lle roedd hyn yn berthnasol.
- Ni ddarparwyd unrhyw arweiniad penodol i reolwyr prosiectau gan yr Adran Gyllid ar y defnydd / addasrwydd o daliadau ymlaen llaw.
- Roedd dau o gymeradwyaethau cymeradwyaethau prosiect a roddwyd gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr bryd hynny yn amodol ar egluro rhai agweddau ar y prosiectau hynny neu gael sicrwydd penodol. Nid oes tystiolaeth bod y cymeradwyaethau amodol hyn erioed wedi'u datrys yn llawn.
- Yn yr un modd, roedd cymeradwyaethau ar bedwar prosiect gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys ceisiadau am wybodaeth bellach ac nid oes tystiolaeth mewn tri o'r achosion hyn y cynhaliwyd gwaith dilynol ar y ceisiadau ac iddynt gael eu datrys.

**Ar ddigonolrwydd trefniadau cytundebol:**

- Ar gyfer sefydliadau heblaw am sefydliadau addysg bellach a oedd wedi derbyn arian gan y Cyngor Cenedlaethol, ni ddatblygwyd contract model. Felly roedd pob un o'r contractau eraill a gyhoeddwyd yn amrywio'n sylweddol o ran eu telerau ac amodau cyffredinol, ac nid oeddent yn rhoi diogelwch cyson i fuddiannau'r Cyngor Cenedlaethol.
- Dim ond ar bum contract y defnyddiwyd darpariaethau adfachu er mwyn mynd i'r afael â'r posibilrwydd na fyddai arian a dalwyd yn cael ei ddefnyddio'n gywir gan dderbynwyr, gan ganiatáu i'r Cyngor Cenedlaethol ailddefnyddio'r arian hwn ar gyfer gweithgareddau eraill.

**Ar ddigonolrwydd y wybodaeth a ddarparwyd i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr:**

- Ar gyfer saith prosiect, roedd y wybodaeth ar y cais ynghylch amseriad y gwariant yn ymwneud â gwariant yn ymwneud â thalu arian i'r ymgeisydd gan y Cyngor Cenedlaethol yn unig, yn hytrach nag amseriad disgwyliedig y gwariant prosiect gwirioneddol gan y derbynwyr. Daeth y tîm Archwilio Mewnol i'r casgliad na fyddai wedi bod yn amlwg i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr bryd hynny na fyddai rhywfaint o'r gwariant gan dderbynwyr yn digwydd tan ar ôl 31 Mawrth 2002.

**Ar ddefnyddio arian a ddarparwyd gan y Cyngor Cenedlaethol:**

- O'r £3.525 miliwn a ddarparwyd i saith o golegau Gogledd Cymru ym Mawrth 2002 ar gyfer adnewyddu cyfleusterau peirianneg, nid oedd rhyw £1.8 miliwn wedi'i wario tan fis Tachwedd / Rhagfyr 2002, wyth mis ar ôl ei dderbyn. Roedd yr £1.7 miliwn oedd yn weddill yn dal heb ei wario ar 31 Mai 2003, oherwydd oedi wrth sicrhau cymeradwyaethau ar gyfer ceisiadau am arian yn gysylltiedig â Chronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae'r Cyngor Cenedlaethol [yn ddiweddar] wedi adennill £373,000 gan un coleg a bydd yn rhyddhau'r arian hwn eto pan fydd ei angen. Mae gweddill yr arian wedi'i ymrwymo neu wedi'i wario ers Mai 2003.

**Ar y broses o fonitro prosiectau a chyflwyno adroddiadau:**

- Dim unwaith y cyflwynwyd adroddiad ar gynnydd yr amrywiol brosiectau yn y rhaglen i'r Cyngor, sef yn ei gyfarfod ym Mehefin 2002. Nid amlygodd yr adroddiad hwnnw yr oedi mewn gwariant gan dderbynwyr yr arian.
- Nid oedd tystiolaeth bod strwythur i'r broses o fonitro rhai o'r prosiectau gan staff y Cyngor Cenedlaethol ac nid digwyddodd yn ddigon aml, ac ni welwyd tystiolaeth o'r gwaith dilynol ar gynnydd yn erbyn canlyniadau a thargedau a gynlluniwyd ym mhob achos.

**Ar yr hyfforddiant a'r cyngor a roddwyd i staff y Cyngor Cenedlaethol:**

- Nid oes unrhyw arweiniad manwl wedi'i gyhoeddi i staff o ran arfer da wrth gychwyn, arfarnu, rheoli a monitro prosiectau, er bod gweithdrefnau a etifeddwyd wedi parhau ar waith drwy gydol 2001 02 a thynnu sylw'r holl staff at ofynion allweddol yng Nghynllun Gweithredol y Cyngor Cenedlaethol.

*Ffynonellau: Tîm Archwilio Mewnol y Cyngor Cenedlaethol a Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

# Casgliadau Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

Mater sy'n peri pryder sylweddol yw'r ffaith bod nifer o'r gwendidau difrifol a oedd yn bodoli yn y ffordd yr ymdriniodd y Cyngor Cenedlaethol â phrosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop hefyd wedi'u nodi mewn rhai o'r 18 o brosiectau eraill yn y rhaglen Cronfa i Ddatblygu Arloesedd sy'n destun adolygiad archwilio. Ar y cyfan, roedd fframwaith rheoli'r Cyngor Cenedlaethol o ran y prosiectau hyn yn annigonol:

- Ni chynhaliwyd asesiadau risgiau digonol fel rhan o brosesau'r Cyngor Cenedlaethol o arfarnu a chymeradwyo prosiectau, a phrin yw'r dystiolaeth y cafodd rheoliadau Cymorth y Wladwriaeth eu hystyried yn briodol gan y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer pob prosiect.
- Roedd y contractau a gyhoeddwyd mewn perthynas â sawl un o'r prosiectau yn amrywio'n sylweddol, ac roedd rhai'n seiliedig yn fras ar y contract a fabwysiadwyd ar gyfer prosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop. Fel y nodir yn Rhan 3 o'r adroddiad hwn, roedd y model contract hwnnw yn cynnwys gwendidau sylweddol ac nid oedd wedi diogelu buddiannau'r Cyngor Cenedlaethol yn ddigonol.
- Ni fu'r broses o fonitro contractau yn ddigon cadarn mewn rhai enghreifftiau, ac nid oedd gan staff y Cyngor Cenedlaethol oedd wedi'u cynnwys yn y broses o arfarnu, monitro a rheoli prosiectau y ddealltwriaeth, y sgiliau na'r wybodaeth i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn effeithiol, neu roeddent wedi methu â'u rhoi ar waith. Er bod ganddynt nifer o ffynonellau arweiniad ar yr hyn a ddisgwyliwyd ganddynt, ni chanfuwyd unrhyw wendidau yn eu dealltwriaeth, eu sgiliau a'u gwybodaeth er mwyn gallu rhoi cymorth a hyfforddiant digonol iddynt.

Tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol 2001-02, gwnaeth y Cyngor Cenedlaethol daliadau cyn bod eu hangen, a ysgogwyd yn rhannol gan ei ddymuniad i osgoi tanwario ei arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y flwyddyn. Mae'r arfer hwn yn annerbyniol mewn Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.

Ar un prosiect, roedd tua £1.7 miliwn o arian y Cyngor Cenedlaethol a ddarparwyd yn 2001-02 yn parhau heb ei wario ymhell i'r flwyddyn ariannol 2003-04. Dylai'r cronfeydd hyn fod wedi'u hadfer gan y Cyngor Cenedlaethol o'r sefydliadau addysg bellach dan sylw a'u rhyddhau pan oedd eu hangen, ond ni wnaed hyn tan Haf 2003.

Ynghyd â'r balans o gronfeydd nad oedd wedi'u gwario o brosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop, mae'r symiau hyn yn cynrychioli adnoddau o floc gwariant cyfyngedig yng Nghymru nad ydynt wedi'u defnyddio'n brydlon at y dibenion a fwriadwyd ac na sicrhawyd eu bod ar gael ar gyfer eu hadleoli mewn mannau eraill. Yn fy marn, ni all arferion o'r fath gynrychioli gwerth am arian cadarn ar gyfer y trethdalwr a phobl Cymru.

# RHAN 5 Taliadau i Ddarparwyr Hyfforddiant ym Mawrth ac Ebrill 2002

## Cyflwyniad

5.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn mynd i'r afael â honiadau a wnaed yn rhaglen materion cyfoes BBC Cymru, 'Week In, Week Out', a ddarlledwyd ar 11 Chwefror 2003, yn ymwneud â thaliadau a wnaed gan y Cyngor Cenedlaethol i'w ddarparwyr hyfforddiant ym Mawrth ac Ebrill 2002.

## Taliadau i Ddarparwyr Hyfforddiant

5.2 Mae'r Cyngor Cenedlaethol yn sicrhau hyfforddiant yn y gweithle i bobl ifanc ac oedolion drwy gontractio gyda darparwyr hyfforddiant y sector cyhoeddus a phreifat yn flynyddol. Mae'r contractau'n nodi cyfraddau tariff ac uchafsymiau ar gyfer hyfforddeion newydd sy'n dechrau eu hyfforddiant ac ar gyfer y canlyniadau hyfforddiant amrywiol (cymwysterau, swyddi ac ati) sydd i'w cyflawni gan bob darparwr hyfforddiant. Mae'n ofynnol i ddarparwyr hyfforddiant, bob mis, i gyflwyno anfonebau / ceisiadau manwl i'r Cyngor Cenedlaethol, ac mae'r rhain yn sail ar gyfer gwneud ad-daliadau. Ar y cyfan, mae'r Cyngor Cenedlaethol yn gwneud taliadau i ddarparwyr hyfforddiant yn y mis sy'n dilyn y mis y mae eu ceisiadau yn gysylltiedig ag ef.

5.3 Roedd rhaglen 'Week In, Week Out' BBC Cymru ym mis Chwefror 2003 yn cynnwys honiadau gan rai darparwyr hyfforddiant bod y Cyngor Cenedlaethol, ym Mawrth 2002, wedi talu arian i gyfrifon banc y darparwyr heb esboniad am ddiben y taliadau, a bod y symiau hyn wedi'u hadennill gan y Cyngor Cenedlaethol yn y mis canlynol yn dilyn hyn.

## Canlyniadau archwiliad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

### Taliadau ar Gyfrif a wnaed ym Mawrth 2002

5.4 Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru wedi cadarnhau bod y Cyngor Cenedlaethol wedi gwneud 'taliadau ar gyfrif' i 166 o ddarparwyr hyfforddiant ym Mawrth 2002, sy'n dod i gyfanswm o £3.657 miliwn. Mae **Ffigur 8** yn dadansoddi'r symiau a dalwyd ar gyfrif gan bob un o swyddfeydd rhanbarthol y Cyngor Cenedlaethol.

**Ffigur 8**

**Dadansoddiad o 'Daliadau ar Gyfrif' i Ddarparwyr Hyfforddiant ym Mawrth 2002**

| Swyddfa Ranbarthol | Taliadau ar Gyfrif £'000 |
|---|---|
| De Orllewin Cymru | 1,647 |
| De Ddwyrain Cymru | 1,002 |
| Gogledd Cymru | 800 |
| Canolbarth Cymru | 208 |
| **CYFANSWM** | **3,657** |

*Ffynhonnell: dadansoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

## Rhesymeg ar gyfer 'Taliadau ar Gyfrif'

5.5 Hysbysodd y Cyngor Cenedlaethol Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru bod darparwyr hyfforddiant wedi'u cynghori drwy lythyr ar yr adeg honno ei fod, oherwydd problemau llif arian a brofwyd gan rai darparwyr, yn bwriadu gwneud 'taliad ar gyfrif' ym Mawrth 2002 o ran y gwaith oedd eisoes wedi'i wneud yn y mis hwnnw. Y bwriad oedd y byddai'r taliad hwn wedyn yn cael ei ddidynnu o anfonebau / ceisiadau'r darparwyr hyfforddiant a fyddai'n cael eu derbyn yn Ebrill (a fyddai'n ymwneud â'u gweithgareddau yn y mis blaenorol). Nid oedd y Cyngor Cenedlaethol yn gallu darparu tystiolaeth i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru am gynrychioliadau ysgrifenedig neu fanylion galwadau ffôn gan ddarparwyr hyfforddiant, gan godi pryderon ynghylch eu llif arian parod.

5.6 Roedd adolygiad gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru o ffeiliau perthnasol y Cyngor Cenedlaethol wedi nodi memorandwm dyddiedig 14 Mawrth 2002 yn dwyn y teitl 'Rheoli Arian Parod' a oedd wedi'i ddosbarthu o fewn y Cyngor Cenedlaethol. Roedd y memorandwm wedi rhoi sylwadau ar alldro arian parod rhagweledig y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2001-02, gan nodi y byddai'r balansau arian parod ar ddiwedd y flwyddyn yn debygol o fod yn fwy na'r ddau y cant o gymorth grant yr oedd gan y Cyngor Cenedlaethol yr hawl i'w 'gario drosodd' o dan adran 2.1.5 o'i Femorandwm Ariannol. Er mwyn osgoi torri'r cyfyngiad o ddau y cant, cynigiodd y memorandwm: "*Fel isafswm i osgoi adfachu mae'n rhaid inni symud £4 miliwn. Byddwn yn argymell ein bod yn bod yn ofalus a symud £6 miliwn, gyda £5 miliwn yn weddill i'w gario ymlaen. Mae hon yn wyddor anfanwl iawn ac os oes gennych unrhyw syniadau pellach rwy'n fwy na pharod i drafod y mater.*"

5.7 Yna aeth y memorandwm ymlaen i drafod y fethodoleg ar gyfer gwneud y taliadau ar gyfrif i ddarparwyr. Argymhellodd y dylai darparwyr dderbyn 80 y cant o werth amcangyfrifiedig y gwaith yr oeddent yn cael eu talu ar gyfrif amdano, ond gostyngwyd y ffigur hwn i 50 y cant cyn i'r taliadau ar gyfrif gael eu hawdurdodi a'u prosesu. Nid yw Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i ategu'r honiad bod y Cyngor Cenedlaethol wedi adfer y taliadau hyn yn gorfforol gan ddarparwyr hyfforddiant yn Ebrill 2002; didynwyd y symiau o'r ceisiadau yn Ebrill a chafodd y balans net oedd yn ddyledus i bob darparwr ei brosesu a'i dalu yn y modd arferol.

5.8 Nodwyd bod y taliad ar gyfrif, mewn rhai achosion, yn fwy na gwerth yr anfoneb ym mis Ebrill, ac yna cafodd y balansau eu hadfer gan ddidyniad yn erbyn anfonebau diweddarach gan y darparwr. Er nad yw ein hadolygiad wedi nodi unrhyw achos lle y cafodd arian ei ddychwelyd i'r Cyngor gan ddarparwyr hyfforddiant, o'n harchwiliad o'r arian a adenillwyd yn erbyn anfonebau diweddarach nodasom un achlysur lle y gwnaed taliad ar gyfrif ac ni chymerwyd camau i'w adennill a phedwar achos arall lle roedd y taliad wedi ymddangos ar lyfr cyfrifon y Cyngor Cenedlaethol fel 'heb ei ddyrannu'. Ers hynny mae'r Cyngor Cenedlaethol wedi cyfrifo bod cyfanswm o ryw £6,000 yn ddyledus iddo o ran yr achosion hyn ac mae'n cynnal adolygiad pellach ar hyn o bryd.

## Rheoleidd-dra'r 'taliadau ar gyfrif'

5.9 Hysbysodd y Cyngor Cenedlaethol Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru nad oedd y cynigion yn y memorandwm a'r taliadau ar gyfrif dilynol i ddarparwyr hyfforddiant wedi'u trafod gyda'i is-adran nawdd o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y pryd. Mae paragraff 3.5 o Femorandwm Ariannol y Cyngor Cenedlaethol yn datgan:

*"Rhaid i'r Cyngor sicrhau cymeradwyaeth ysgrifenedig y Cynulliad cyn unrhyw wariant ar unrhyw brosiect (yn cynnwys cynlluniau grant) neu at unrhyw ddiben sydd yn arloesol neu'n ddadleuol, neu y gellir ei ystyried felly; cyn gwneud unrhyw newid mewn polisi neu arfer ag iddo oblygiadau ariannol sylweddol neu a allai effeithio ar lefel yr adnoddau sydd eu hangen yn y dyfodol; a chyn gwneud unrhyw newid sylweddol yng ngweithrediad neu gyllid unrhyw fenter neu gynllun penodol a gymeradwywyd gan y Cynulliad yn flaenorol."*

5.10 Dywedodd y Cyngor Cenedlaethol wrth Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ei fod wedi cymryd y safbwynt nad oedd angen cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer y taliadau ar gyfrif oherwydd nad oedd yn ystyried bod y rhain yn torri unrhyw ddarpariaeth yn y Memorandwm Ariannol. Yn arbennig, nid oedd y Cyngor Cenedlaethol yn ystyried bod y taliadau ar gyfrif yn cynrychioli 'newid sylweddol yng ngweithrediad neu gyllid unrhyw fenter neu gynllun penodol a gymeradwywyd gan y Cynulliad yn flaenorol', oherwydd ei fod yn ystyried mai dim ond addasiad i'r amserlen dalu oedd y rhain ac nad oeddent yn sylweddol.

5.11 Yn dilyn darlledu'r rhaglen 'Week In, Week Out' ar Chwefror 2003, ysgrifennodd swyddogion yn is-adran nawdd y Cyngor Cenedlaethol yn gofyn am esboniad o'r mater hwn. Yn ei ymateb, nododd y Prif Weithredwr bryd hynny fod y taliadau ar gyfrif wedi'u gwneud er mwyn cynorthwyo darparwyr hyfforddiant gyda'u llif arian ar adeg o'r flwyddyn pan ddisgwyliwyd nifer fawr o geisiadau oherwydd y nifer fawr o hyfforddeion oedd yn cyflawni eu cymwysterau, gan ei gwneud yn ofynnol sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud gan ddarparwyr i'r sefydliadau oedd yn dyfarnu'r cymwysterau. Yn ogystal, bu darparwyr yn awyddus iawn i gyflwyno ceisiadau ar yr adeg hon cyn bod y Cyngor Cenedlaethol yn newid ei systemau talu, a oedd i'w cyflwyno ar gyfer y flwyddyn ariannol 2002-03. Mynnodd y Prif Weithredwr bryd hynny na wnaed taliad cyn bod ei angen, gan fod yr hyfforddiant yr oedd y taliadau hyn yn ymwneud ag ef eisoes wedi'i ddarparu, ac felly nad oedd unrhyw ddarpariaethau o'r Memorandwm Ariannol wedi'u torri. Roedd y contractau gyda darparwyr hyfforddiant yn nodi'r dyddiadau ar gyfer gwneud taliadau, ond nid oedd rheswm pam nad oedd modd i'r taliadau hyn gael eu gwneud yn gynharach.

# Casgliadau Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

Er gwaethaf hysbysiad y Cyngor Cenedlaethol i ddarparwyr hyfforddiant y byddent yn derbyn taliadau ar gyfrif ym Mawrth 2002 er mwyn mynd i'r afael â phroblemau llif arian parod y darparwyr, ac wedi hynny'r ffaith ei fod wedi cyfiawnhau'r taliadau yn gyhoeddus yn y termau hyn, nid oes tystiolaeth ddogfennol i'r materion hyn gael eu codi'n uniongyrchol gan ddarparwyr hyfforddiant gyda'r Cyngor Cenedlaethol. Effaith y penderfyniad i wneud y taliadau hyn oedd lleihau'r arian parod a gedwir yng nghyfrif banc y Cyngor Cenedlaethol ar ddiwedd y flwyddyn, ac mae memorandwm 'Rheoli Arian Parod' y Cyngor Cenedlaethol, dyddiedig 14 Mawrth 2002, yn dystiolaeth o hyn.

Nid yw contractau'r Cyngor Cenedlaethol gyda darparwyr hyfforddiant yn dweud unrhyw beth am y mater o daliadau ar gyfrif ac ni ddigwyddodd taliadau o'r fath ar unrhyw adeg arall yn ystod y flwyddyn ariannol 2001-02. Roedd y cyfrifiad o lefel y taliadau i ddarparwyr wedi'i gynllunio er mwyn sicrhau na fyddai'n mynd y tu hwnt i'r anfonebau terfynol ar gyfer y gwaith a wnaed ym mis Mawrth 2002. Fodd bynnag, os oedd tystiolaeth bod darparwr, ar ôl hynny, wedi derbyn gordaliad am ei wasanaethau ym mis Mawrth ac yna wedi rhoi'r gorau i fasnachu, mae'n bosibl na fyddai'r Cyngor Cenedlaethol wedi gallu adfer unrhyw arian a ordalwyd.

Hysbyswyd pob un o'r darparwyr hyfforddiant am y cynigion drwy lythyr ym Mawrth 2002 a dylent felly fod wedi bod yn ymwybodol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol y byddai'r taliadau ar gyfrif yn cynhyrchu gostyngiadau yn eu hawliau i daliadau ar gyfer Ebrill 2002.

Ystyriwn fod y cynllun 'Rheoli Arian Parod' yn ymwyriad oddi wrth arferion talu arferol y Cyngor Cenedlaethol ac rydym o'r farn y dylid bod wedi ceisio cymeradwyaeth ar ei gyfer gan yr is-adran oedd yn ei noddi o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

# ATODIAD 1

## Cronoleg o Gontract y Cyngor Cenedlaethol gyda Learn to Live Cyf

| | |
|---|---|
| **22 Tachwedd 2001** | Cyfarfod y Cyngor Cenedlaethol. Dywedwyd wrth Aelodau'r Cyngor y derbyniwyd arian ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2001-02, ond hefyd bod gwariant hyd hynny yn is na'r proffil ac yn debygol o barhau felly tan 31 Mawrth 2002, ac y byddai'n rhaid ildio'r arian nas gwariwyd i'r Cynulliad ar ôl hynny. Felly aeth swyddogion y Cyngor Cenedlaethol ati i nodi prosiectau o bwys oedd â'r gallu i ddefnyddio'r arian oedd ar gael o fewn y flwyddyn ariannol 2001-02. |
| **6 Rhagfyr 2001** | Manylion prosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop wedi'u cynnwys mewn adroddiad ar gyfer y Cyngor Cenedlaethol, sef 'Manylion cryno o'r prosiectau arfaethedig'. |
| **7 Rhagfyr 2001** | Llythyr gan y Cyngor Cenedlaethol i'r adran nawdd yn y Cynulliad, yn tynnu sylw at y ffaith bod Cadeirydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr bryd hynny yn y broses o roi blaenoriaeth i brosiectau drwy ddefnyddio awdurdodau dirprwyedig y Cyngor Cenedlaethol. |
| **10 Rhagfyr 2001** | Ffurflen gais ar gyfer y Cynllun Arloesi a Datblygu ar gyfer Learn to Live Cyf wedi'i chwblhau a'i chymeradwyo gan swyddogion y Cyngor Cenedlaethol. |
| **19 Rhagfyr 2001** | Papur yn nodi manylion penderfyniadau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr bryd hynny ar bob un o'r prosiectau buddsoddi a gyflwynwyd iddynt yn cael ei ddosbarthu i bob un o gyfarwyddwyr y Cyngor Cenedlaethol. O ran Caffi MP3 y Ganolfan Bop, mae'r papur yn datgan:<br><br>'wedi'i gymeradwyo ond gyda rhai pryderon gwirioneddol y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy cyn y contract oherwydd bod lefel y gwariant mor uchel.';<br><br>'a wireddir y cyfraniadau eraill? Sut y byddem yn diogelu'r asedau a ddarperir o gronfeydd y Cyngor Cenedlaethol? - Sut y gallem fod yn gwbl sicr bod y pwrs cyhoeddus yn cael ei ddiogelu';<br><br>'awgrymu ein bod yn nodi cyfres o weithgareddau dysgu canfyddadwy wedi'u clustnodi y gallwn, rywsut, ddarparu arian cychwynnol ar eu cyfer yn yr amser sydd ar gael inni wario'r arian hwn er mwyn inni allu gweld yr elw o'n cyfraniad. Nid yw hyn yr un peth â dweud na chaiff y prosiect hwn ei gymeradwyo os na allwn wneud hyn, ond mae cymaint o wahanol elfennau i hyn fel bod risg yn bodoli yma a gallem wynebu canlyniadau difrifol os nad ydym yn chwarae ein rhan â'r cywirdeb mwyaf posibl'; ac'<br><br>'Mae rhaid i hwn fynd at Steve eto, fel Swyddog Cyfrifo, mae rhaid iddo fod yn gyfforddus â fe.' |
| **10 Ionawr 2002** | Swyddogion y Cyngor Cenedlaethol a'r Cynulliad yn cyfarfod er mwyn trafod y prosiect. Ni chymerwyd cofnodion o'r cyfarfod hwn. |
| **11 Ionawr 2002** | Swyddogion y Cynulliad yn cadarnhau cymeradwyaeth gan gynnig y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes o ran cynnig y Cyngor Cenedlaethol i gyfrannu i'r prosiect. |
| **15 Ionawr 2002** | Rhoddwyd cymeradwyaeth Weinidogol. |
| **30 Ionawr 2002** | Swyddogion y Cynulliad yn cadarnhau cymeradwyaeth i'r prosiect ac yn atgoffa'r Cyngor Cenedlaethol y dylai'r prosiectau gydymffurfio ag Atodlen 8 o'r Datganiad Rheoli, sef 'Canllawiau ar gyfer Arloesi a Datblygu'. |
| **18 Chwefror 2002** | Llythyr gan Eversheds i'r Cyngor Cenedlaethol yn cynnwys contract drafft diwygiedig. Mae'r llythyr yn cadarnhau bod y contract wedi newid i gontract ar gyfer darparu gwasanaethau yn hytrach na chytundeb ariannu, ac yn codi pryderon ynghylch strwythur y contract, cydymffurfiaeth â rheoliadau caffael a chymorth y wladwriaeth ac, fel y saif ar hyn o bryd, analluʼr Cyngor Cenedlaethol i adennill arian gan Learn to Live Cyf. |
| **22 Chwefror 2002** | Llofnodir y contract rhwng y Cyngor Cenedlaethol a Learn to Live Cyf gan y ddwy ochr, ac mae bellach yn ymgorffori cymal 'adfachu' os na fydd y £4 miliwn cyfan yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y prosiect. |

| | |
|---|---|
| **5 Mawrth 2002** | Learn to Live Cyf yn cyflwyno anfonebau am £4 miliwn i'r Cyngor Cenedlaethol, yn erbyn y tri atodiad contract ar gyfer ariannu'r prosiect. |
| **15 Mawrth 2002** | Learn to Live Cyf yn ysgrifennu i'r Cyngor Cenedlaethol yn amlygu'r oedi tebygol yn y prosiect oherwydd yr awydd i ailadeiladu yn hytrach nag adnewyddu safle'r hen archfarchnad a nodi pam 'ym muddiannau gorau gwerth am arian ac addasrwydd at y pwrpas' y dylai'r broses o gaffael rhai eitemau cyfalaf gael ei gohirio. |
| **27 Mawrth 2002** | Gwneir taliad o £4 miliwn gan y Cyngor Cenedlaethol i Learn to Live Cyf. |
| **Mawrth - Tachwedd 2002** | Cynhelir pum cyfarfod monitro contractau gyda Learn to Live Cyf. |
| **18 Tachwedd 2002** | Y Cyngor Cenedlaethol yn derbyn yr adroddiad monitro manwl cyntaf gan Learn to Live Cyf, yn nodi'r gwariant ar y prosiect tan 31 Hydref 2002 ac yn arwain at gomisiynu adolygiad o'r contract gan y tîm Archwilio Mewnol. |
| **Rhagfyr 2002 - Ebrill 2003** | Adolygiad Archwilio Mewnol o gyfranogiad y Cyngor Cenedlaethol ym mhrosiect Caffi MP3 y Ganolfan Bop. |
| **11 Rhagfyr 2002** | Adroddiad Archwilio Mewnol Interim yn cael ei gynhyrchu. Mae Prif Weithredwr ar y pryd yn penderfynu ymestyn cwmpas yr ymchwiliad (gweler paragraff 1.8 o'r cylch gorchwyl) a cheisio adfer arian nas gwariwyd gan Learn to Live Cyf. |
| **16 Ionawr 2003** | Hysbyswyd cyfarfod y Cyngor Cenedlaethol gan y Prif Weithredwr bryd hynny bod yr adolygiad Archwilio Mewnol ar waith. |
| **7 Chwefror 2003** | Learn to Live Cyf yn ad-dalu £1,670,336 i'r Cyngor Cenedlaethol. |
| **11 Chwefror 2003** | Darlledir rhaglen BBC Cymru, sef *'Week In, Week Out'*. |
| **15 Mai 2003** | Cyfarfod y Cyngor Cenedlaethol yn derbyn adroddiad yr Archwiliad Mewnol. |
| **21 Mai 2003** | Learn to Live Cyf yn ad-dalu £276,108 i'r Cyngor Cenedlaethol. |
| **16-18 Gorffennaf 2003** | Learn to Live Cyf yn cynnal cynllun peilot o'r modiwl cyntaf. |

# ATODIAD 2

## Prosiectau a Gymeradwywyd o dan y Cynllun Arloesi a Datblygu rhwng Rhagfyr 2001 a Mawrth 2002

| Coleg / Darparwr | Enw'r Prosiect | Buddsoddiad 2001-02 a gymeradwywyd (£) |
|---|---|---|
| **Prosiectau Ystadau** | | |
| Coleg Glannau Dyfrdwy | Y Ganolfan ar gyfer Rhagoriaeth Mewn Peirianneg | 855,000 |
| Coleg Gorseinon | Bloc Celf a Thechnoleg newydd | 460,000 |
| Coleg Sir Benfro | Canolfan Arloesi Technoleg | 250,000 |
| Coleg Gorseinon | Canolfan Ragoriaeth Mewn Peirianneg Cerbydau | 232,000 |
| Coleg Llysfasi | Adeiladau Dysgu Newydd | 200,000 |
| Coleg Castell-nedd Port Talbot | Hyfforddiant Galwedigaethol ar gyfer y Diwydiant Hamdden | 200,000 ** |
| Coleg Dewi Sant | Bloc Technoleg Gwybodaeth newydd | 200,000 |
| Coleg Ystrad Mynach | Ail-gynllunio Bloc 'D' | 200,000 |
| Coleg Pen-y-bont ar Ogwr | Adeiladu Canolfan Gofal Anifeiliaid ym Mhencoed | 120,000 |
| Coleg Sir Gar | Canolfan Ragoriaeth Wledig | 100,000 |
| **Prosiect rhanbarth Gogledd Cymru** | | |
| Saith Coleg: Glannau Dyfrdwy, Menai, Llandrillo, Iâl, Coleg Garddwriaeth Cymru, Llysfasi a Meirion Dwyfor | Peirianneg yng Ngogledd Cymru - Cyfarpar Cyfalaf | 3,525,000 |
| **Prosiectau rhanbarth Canolbarth Cymru** | | |
| ELWa | TGCh / MD ar gyfer ffermwyr (darparu cyfrifiaduron pen-glin) | 500,000 |
| Y Ganolfan Technoleg Amgen | 'Y Profiad Cynaliadwy' | 300,000 |
| Hyfforddiant Cambrian | Canolfan Ragoriaeth mewn Sgiliau Cigyddiaeth | 250,000 |
| **Prosiectau rhanbarth De Ddwyrain Cymru** | | |
| Learn to Live Cyf | Caffi MP3 y Ganolfan Bop | 4,000,000 |
| Bwrdd yr Iaith Gymraeg | Ymestyn Cyfleoedd ar gyfer Dwyieithrwydd | 195,000 |
| **Prosiectau rhanbarth De Orllewin Cymru** | | |
| Cyngor Sir Penfro | e-ddysgu yng Ngogledd Sir Benfro | 365,000 |
| Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru | Menter Gadael Gofal | 105,000 |
| | **Cyfanswm yr arian a ddyranwyd** | **12,057,000** |

** Er ei fod wedi'i gymeradwyo, gohiriwyd y prosiect hwn yn ddiweddarach